YR EGLWYS YNG NGHYMRU · THE CHURCH IN WALES

ADRODDIAD GAN
GOMISIWN ATHRAWIAETH SEFYDLOG
YR EGLWYS YNG NGHYMRU

# YR EGLWYS YNG NGHYMRU A PHARTNERIAETHAU O'R UN RHYW

Mawrth 2014

## YR EGLWYS YNG NGHYMRU A PHARTNERIAETHAU O'R UN RHYW

### Cyflwyniad i'r adroddiad

Mae cyd-destun partneriaethau o'r un rhyw wedi newid yn ddramatig yn y blynyddoedd diwethaf. Am ddegawdau lawer cafwyd dadl rhwng y rhai sy'n mabwysiadu'r agwedd draddodiadol at bartneriaethau o'r un rhyw, a'r rhai sy'n fwy cadarnhaol. Fodd bynnag, yn y degawd diwethaf, mae dau beth wedi newid y ddadl yn sylweddol. Y cyntaf yw realiti deddfwriaeth y Llywodraeth, a'r ail yw'r newid yn y farn gyhoeddus, yn enwedig ymhlith pobl ifanc. Mae'r Eglwys yng Nghymru ac Eglwys Loegr fel ei gilydd wedi ceisio ymateb i'r newidiadau hyn. Yn Eglwys Loegr, cyhoeddwyd dau adroddiad yn 2013.[1] Roedd y naill yn ymwneud â phriodas a'r llall â rhywioldeb. Roedd y ddau yn ganlyniad i astudiaeth a wnaed dros nifer o flynyddoedd. Yn yr un modd yng Nghymru, gofynnodd yr esgobion i'r Comisiwn Athrawiaeth ystyried mater bendithio partneriaethau sifil yn 2011. Fodd bynnag, daeth newidiadau pellach i'r fei cyn i'r astudiaeth weld golau dydd. Ar 24 Ionawr 2013 cyflwynodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig Fil Priodasau (Cyplau o'r Un Rhyw) i Senedd y DU.

Rhoddwyd Cydsyniad Brenhinol i'r Ddeddf ar 17 Gorffennaf 2013. Mae deddfwriaeth benodol yn y Ddeddf (Adrannau 4 ac 8) yn cyfeirio at yr Eglwys yng Nghymru. Mae Adran 4 yn diwygio Deddf Priodas 1949, ac yn caniatáu i sefydliadau crefyddol optio i mewn i gynnal priodasau ar gyfer cyplau o'r un rhyw os ydynt yn dymuno gwneud hynny, ac eithrio yn benodol Eglwys Loegr a'r Eglwys yng Nghymru, am nad oes caniatâd iddynt hwy wneud hynny.

Mae Adran 8 yn gosod y weithdrefn y gall yr Eglwys yng Nghymru ei defnyddio i gynnal priodasau ar gyfer cyplau o'r un rhyw pe bai am wneud hynny byth. Roedd staff Corff y Cynrychiolwyr ac Archesgob Cymru wedi cymryd rhan flaenllaw yn y trafodaethau hyn. Yn eu sgil, ym mis Ebrill 2013, dywedodd yr Archesgob wrth y Corff Llywodraethol ei fod wedi gofyn i'r Comisiwn Athrawiaeth edrych ar yr holl faterion yn ymwneud â chydberthnasau o'r un rhyw.

Rydym ni wedi cyfarfod am chwe diwrnod llawn fel Comisiwn i drafod y mater hwn. Rydym ni hefyd wedi treulio llawer o amser y tu allan i gyfarfodydd ffurfiol mewn astudiaeth a gwaith ysgrifennu personol a chafwyd llawer o gyfarfodydd rhwng aelodau unigol o'r Comisiwn. Rydym yn sylweddoli bod hyn yn fater hynod bersonol, ac rydym yn ddiolchgar i'r bobl nad oeddent yn aelodau o'r Comisiwn a ddaeth i siarad â ni fel Comisiwn am ddiwrnod cyfan. Roedd pob un a ddaeth wedi siarad â ni am eu profiad o atyniad at yr un rhyw. Roedd rhai yn teimlo ei bod hi'n bwysig eu bod hwy, a'r Eglwys yn ymwrthod ag atyniad o'r fath ac yn cynnal disgyblaeth draddodiadol yr Eglwys. Roedd eraill wedi ymrwymo i bartneriaeth sifil, ac mae un

---

[1] Adroddiad Comisiwn Ffydd a Threfn Eglwys Loegr 2013: '*Men and Women in Marriage'.* Llundain: Church House Publishing*. Report of the House of Bishops Working Group on human sexuality* GS Misc 1929 , 2013 Llundain: Church House Publishing,

wedi cael plentyn o fewn y bartneriaeth honno. Roedd pob un ohonynt yn Gristion ymroddedig. Rydym ni hefyd wedi treulio llawer o amser yn gweddïo ynglŷn â'r mater hwn, gan ddathlu'r Cymun Bendigaid fel rheol wrth gyfarfod bob tro. Rydym ni'n cynrychioli safbwyntiau gwahanol iawn yn y ddadl. Rydym ni wedi ysgrifennu llawer, ac wedi trafod papurau ein gilydd mewn ysbryd o haelioni a pharch at ein gilydd. Bu'n brofiad dwys a gwerthfawr iawn i ni i gyd. Rwyf hefyd yn ddiolchgar iawn i Goleg Mihangel Sant am eu lletygarwch trwy gydol hyn i gyd, ac am gymorth eu staff.

Mae'r adroddiad terfynol yn weddol fyr, gyda'r nod o fedru ei drafod yn y Corff Llywodraethol. Mae ein papurau mwy sylweddol, sy'n bennaf am yr ysgrythurau ac athrawiaethau, ar wefan yr Eglwys yng Nghymru, lle gall y sawl sydd am drafod y dadleuon ymhellach wneud hynny. Mae'r Comisiwn cyfan wedi gweld y papurau hyn, ond safbwyntiau personol yr aelodau eu hunain sydd ynddynt. Mae dau bapur ar yr ysgrythurau; un ar rywioldeb a'r ddelwedd o Dduw; un arall ar sagrafenoldeb, a'r un olaf ar ffynnu. Fodd bynnag, nid ydym wedi cynnwys y ddadl hon yn yr adroddiad.[2]

Mae'r adroddiad yn cychwyn trwy amlinellu hanes priodas yn y Gorllewin ers y cyfnod Rhufeinig hyd at y ddeddfwriaeth y llynedd, fel y nodwyd uchod. Wedyn, mae adran fer ar faterion partneriaethau o'r un rhyw a godwyd gan y byd gwyddonol. Yn dilyn, cynigwn dri opsiwn trafod:

a) dim ond rhwng dyn a menyw y dylid cael priodas
b) bendithio perthnasau o'r un rhyw
c) priodas yn uniad o bersonau cyfartal cariadus, waeth beth yw eu rhyw

Rydym ni'n cloi ein hadroddiad gyda rhai ystyriaethau am bwysigrwydd ymateb bugeiliol i'r mater hwn yn ei gyfanrwydd. Nid ydym ni'n pwyso a mesur y tri opsiwn, ond yn syml yn eu cyflwyno i'r Corff Llywodraethol. Mae rhai o aelodau'r Comisiwn yn gryf o blaid un opsiwn, mae'n well gan eraill opsiwn arall ac mae rhai'n parhau heb benderfynu. Rydym ni i gyd yn teimlo'n gryf ei bod hi'n bwysig cael ymateb bugeiliol. Rydym ni hefyd wedi cynnwys tri chwestiwn i'r Corff Llywodraethol eu hystyried wrth drafod yr adroddiad hwn.

**Y Canon Ddoethur Peter Sedgwick**

**Cadeirydd, Comisiwn Athrawiaeth Sefydlog yr Eglwys yng Nghymru**

Chwefror 2014

---

[2] Mae'r papurau ar wefan yr Eglwys yng Nghymru fel a ganlyn: Ali Green, The concept of flourishing in relation to marriage as a good, and the question of gay partnerships ; Ainsley Griffiths, Marriage as sacrament ; Matthew Hill, Fundamental scriptural approaches ;Peter Sedgwick, Sexuality and the image of God; Will Strange ,Same-sex marriage: biblical considerations.

# Crynodeb Gweithredol

Adroddiad gan Gomisiwn Sefydlog yr Eglwys yng Nghymru ar Athrawiaeth

## Yr Eglwys yng Nghymru a Phartneriaethau Un-Rhyw

Mae'r adroddiad yn cychwyn trwy drafod hanes priodas fel cefndir i'r drafodaeth ar bartneriaethau un-rhyw. Yn benodol, ystyria'r adran hon briodas yng nghyfnod y Rhufeiniaid; dealltwriaeth yr Iddewon o briodas yng nghyfnod Iesu; dysgeidiaeth yr eglwys fore, a'i phwyslais ar fod yn ddibriod, a'r ffaith na fendithid cwpl a oedd yn priodi gan esgob nac offeiriad tan y bedwaredd ganrif OC. Nid ystyrid priodas yn sacrament tan y drydedd ganrif ar ddeg. Mae'r adroddiad yn trafod dysgeidiaeth y Llyfr Gweddi Anglicanaidd ar briodas, a hollbwysigrwydd Deddf Priodas 1754 yng Nghymru a Lloegr, a bennai am y tro cyntaf nad oedd priodas yn gyfreithiol ddilys oni chynhelid hi mewn eglwys Anglicanaidd gan glerig o Anglican. Erbyn 1836, fodd bynnag, caniateid priodi mewn swyddfa cofrestrydd fel goddefiad i anghydffurfwyr. Trafodir y cynnydd mewn cyd-fyw ac mewn partneriaethau sifil un-rhyw, a chrybwyllir yn olaf Ddeddf Priodas Un-Rhyw 2013, a ddaw i rym ym mis Mawrth 2014, ac sy'n gosod y cyd-destun at drafod yr adroddiad hwn.

Mae adran nesaf yr adroddiad (paragraffau 31- 51) yn trafod y goblygiadau i'r eglwys sy'n codi o'r drafodaeth wyddonol ar ogwydd rhywiol. Yn benodol, dadleua tri pharagraff olaf yr adran hon nad gwyddoniaeth a ddylai benderfynu meddwl yr eglwys, ond bod angen myfyrio ar y dystiolaeth wyddonol gynyddol na ddylid ystyried gogwydd wrywygydiol fel "patholeg ond yn hytrach fel nodwedd naturiol y mae cyfran fechan, ond arwyddocaol, o'r boblogaeth yn ei chaffael cyn eu geni". Beth yw arwyddocâd moesol a diwinyddol y ffaith hon?

Felly, â'r adroddiad ymlaen i drafod lle'r ysgrythur ac athrawiaeth (paragraffau 52-4). Adran fer yw hon, oherwydd y mae'r papurau maith ar y pwnc ar wefan yr Eglwys yng Nghymru. Yr hyn sy'n bwysig yw bod yr eglwys yn mynd ati i chwilio am sancteiddrwydd gerbron Duw. Mae'r adroddiad wedyn yn ystyried tri dewis i'r Eglwys yng Nghymru. Un yw ailddatgan y safbwynt traddodiadol, sef na ellir priodi dim ond dyn a dynes (paragraffau 56-77). Yr ail ddewis yw bendithio partneriaethau un-rhyw, fel y caniateir ar hyn o bryd mewn rhai esgobaethau Anglicanaidd yng Nghanada ac Unol Daleithiau'r America (paragraffau 78- 102). Y trydydd dewis yw priodi cyplau ni waeth beth eu rhyw (paragraffau 103-136). Terfyna'r adroddiad trwy bwysleisio sut beth fyddai ymateb bugeiliol.

**Peter Sedgwick**
Cadeirydd

## Cyd-destun hanesyddol

1. Roedd dulliau hir-sefydlog o briodi cyplau eisoes yn rhan o gymdeithas pan ddaeth Cristnogaeth i fod. Roedd y cymdeithasau hyn ar y cyfan yn hapus iawn gyda'u traddodiadau, ac yn eu hystyried fel y ffordd amlwg a 'naturiol' o greu priodas.

2. Serch hynny, mae diffinio priodas yn anodd tu hwnt. Ym 1949, cafwyd diffiniad o briodas gan George Peter Murdock, yr anthropolegydd enwog, sef sefydliad cyffredinol sy'n cynnwys dyn a menyw yn byw gyda'i gilydd, gan ymgysylltu'n rhywiol a chydweithredu'n ariannol [3]. Ar unwaith, cafwyd gwrthwynebiadau i'r diffiniad hwn. Mewn llawer o ddiwylliannau, hyd yn oed ar ôl priodi, nid yw dynion a menywod yn byw na hyd yn oed yn bwyta gyda'i gilydd ac mae cydweithrediad ariannol ymhell o fod yn gyffredin. Ym 1951, cafwyd ymgais arall gan Sefydliad Anthropolegol Brenhinol Prydain, pan ddiffiniwyd priodas fel uniad rhwng dyn a menyw gan beri bod plant a enir i'r fenyw honno'n epil cyfreithlon cydnabyddedig i'r ddau bartner[4]. Unwaith eto cafwyd gwrthwynebiadau: beth am enghreifftiau yn y gymdeithas yng Ngorllewin Affrica lle gall menyw gael menyw arall fel 'priod benyw' ac y bydd unrhyw blant a ddaw i'r briodas trwy'r fenyw gyntaf neu a enir wedi hynny yn cael eu cydnabod fel plant y priod benyw? Beth am yr hen Rufain lle'r oedd newydd-anedig yn cael ei gyflwyno i'r gŵr priod a allai wedyn benderfynu a oedd am gydnabod y plentyn yn gyfreithlon neu ddatgelu ei anghyfreithlondeb?

3. Yn nyddiau cynnar y gymdeithas Rufeinig, ystyriwyd priodas fel contract rhwng y ddau deulu. Roedd y wraig, ynghyd â'r plant yn rhan o eiddo'r teulu. Prynwyd y wraig am 'bris priodferch' oddi wrth ei theulu, nid oedd ganddi ei heiddo ei hun a gellid ei churo, ei chosbi, ei hysgaru a hyd yn oed ei gwerthu'n gaethferch [5] yn ôl dymuniad pennaeth gwryw y teulu. Nid ei gŵr o reidrwydd fyddai'r pennaeth gwryw hwnnw, ond yn aml ef fyddai ei thad yng nghyfraith. Roedd cyfraith Rufeinig hefyd yn ystyried dyn a menyw yn ŵr a gwraig os byddent wedi bod yn cydfyw am flwyddyn gan fwriadu byw yn ŵr a gwraig priod, yn hytrach na mewn trefniant ordderchaeth (fel rheol pobl na allent briodi oherwydd gwahanol statws cymdeithasol na fyddai eu plant yn etifeddu neu'n derbyn dinasyddiaeth yn awtomatig).

4. Tybiaethau Rhufeinig ynglŷn â natur a diben teuluoedd oedd wrth wraidd y dulliau hyn o briodi. Roedd y penteulu[6] yn rheoli aelwyd a oedd yn cynnwys caethweision a phobl rydd, cleientiaid a chymdeithion yn ogystal â phlant ac

[3] Coontz, S. 2005. *Marriage, a History: How Love Conquered Marriage.* Efrog Newyddk: Penguin: t26
[4] Ibid t. 27.
[5] Mae Coleman yn amau'r hawl i werthu i gaethwasiaeth ac nodi nad oedd gan y *penteulu* hawl i'w lladd. Coleman, P. 2004. *Christian Attitude to marriage from Ancient Times to the Third Millenium.* Llundain: SCM Press: t65
[6] Gallai, dan rai amgylchiadau, fod yn fenyw

wyrion. Roedd y teulu eang hwn yn darparu gofal cymdeithasol, gwarchodaeth a gweithgarwch economaidd. Gellid cymharu rôl y penteulu â rôl brenin, gyda gwraig, plant a chaethweision i gyd o dan ei lywodraeth. Yn ôl Coontz, dyna pam roedd priodasau gwryw-gwryw yn wrthun yn yr hen Rufain: ni allai priodas fodoli rhwng dau berson o statws cyfartal[7]. Roedd enghreifftiau o gariad rhwng gwŷr a gwragedd priod ond nid oedd iddo le swyddogol yn strwythur y teulu hwn, ac roedd perthynas rywiol rhwng y gŵr priod a'i gaethweision yn ddisgwyliedig.

5. Erbyn amser Crist, roedd crefydd y wladwriaeth i raddau helaeth yn disodli crefydd y teulu, felly er bod llawer o'r traddodiadau'n parhau'r un fath, roedd eu harwyddocâd wedi newid. Roedd modrwy ddyweddïo'n disodli pris y briodferch a bellach cydsyniad y cwpl a gaed yn hytrach na chontract eu teuluoedd, ac ystyrid hyn yn hanfodol. Nid oedd y wraig yn dod o dan awdurdod teulu ei gŵr fel cynt. Gwelir symbol o'r cydsyniad hwn, mewn celfyddyd Rufeinig o leiaf, yn uniad y ddwy law dde. Roedd y gymdeithas yn condemnio amlwreiciaeth yn chwyrn, gan ei hystyried yn 'farbaraidd' ac 'estron', a daeth yr agwedd hon yn rhan amlwg o Iddewiaeth y ganrif gyntaf a Christnogaeth gynnar er gwaethaf enghreifftiau amlwg yr Hen Destament o benteuluoedd a brenhinoedd. Roedd ysgariad Rhufeinig yn hawdd, yn gyffredin a heb fawr o stigma cymdeithasol.[8] .

6. Ar y llaw arall, gwelwyd priodas Iddewig fel proses dau gam, yn debyg iawn i draddodiadau'r cenhedloedd cyfagos. Adeg dyweddïo, roedd y cwpl yn rhoi arwydd o gydsyniad gyda'r dyn yn rhoi modrwy i'r ferch ac yn ei hawlio yn eiddo rhywiol llwyr iddo ef, tra bo'r wraig yn derbyn hynny'n dawel. Roedd y contract priodasol yn pennu pa bethau fyddai teuluoedd y briodferch a'r priodfab yn eu rhoi i'r cwpl a beth y gallai'r briodferch ei ddisgwyl pe bai ysgariad. Yn nyddiau Crist, ac mewn ardaloedd gwledig fel Galilea, byddai cwpl ifanc yn fynych yn cydfyw cyn arwyddo'r contract er mwyn 'dod i adnabod ei gilydd'[9]. Ystyrid y dyweddïad bron yn gyfystyr â phriodas gan olygu y byddai'n rhaid cael ysgariad pe bai'r cwpl yn gwahanu rhwng y dyweddïad a'r contract. Serch hynny, dim ond y dyn allai gychwyn achos o ysgariad; roedd ysgariad yn hawdd ond yn destun gwarth cymdeithasol i fenywod Iddewig a oedd yn dra gwahanol i'r sefyllfa Rufeinig. Gofynnwyd i Rabbis Hillel a Shammai beth a ystyrid yn sail ddigonol ar gyfer ysgariad. Yn ôl Shammai, dim ond ar sail ymddygiad tebyg i odineb y dylid ysgaru menyw; roedd Hillel yn caniatáu ysgariad am resymau mor bitw â llosgi bwyd y gŵr. Dyma yw'r cyd-destun ar gyfer athrawiaeth yr Iesu ar ysgariad (Mathew 19. 3-12; Marc 10. 2-12) lle mae'n codi statws y wraig o fod yn

7 Coontz 2005: t11

8 Er enghraifft, roedd yr Ymerodres Livia, gwraig Awgwstws Cesar, a luniodd ddeddfau i annog a chryfhau priodas, wedi ysgaru

9 Coleman 2004: t86. Mae'n gwyrdroi'r drefn arferol o gydsyniad wedyn contract, gan ddweud mai contract oedd gyntaf wedyn cydsyniad

berson dibynnol ar ei gŵr y mae rhyddid iddo gael gwared arni, i fod yn rhan wirioneddol o'i gnawd.

7. Ymddengys fod yr Eglwys Fore wedi derbyn y ffyrdd o ddod ac o fod yn briod a berthynai i'r gymdeithas o'i chwmpas, ond newidiodd y profiad o berthyn i deulu'r ffydd y rhagdybiaethau dwfn am yr hyn a oedd yn gysylltiedig â'r ffyrdd o ddod yn briod. Yn Epistolau Paul [10] mae'n ddyletswydd ar y penteuluoedd i garu eu gwragedd a pheidio â thra-arglwyddiaethu dros eu plant. Roedd ufuddhau i Grist hefyd yn cynnig ffyrdd newydd o fyw o fewn teulu ffydd, megis diweirdeb a chymuned fynachaidd nad ydynt yn seiliedig ar briodas.

8. Yn yr Eglwys Fore, ystyrid diweirdeb, ac nid priodas, fel y ffurf fwyaf rhinweddol o rywioldeb Cristnogol, er gwaethaf ymgais ofalus Paul i ddatgan y pethau da sy'n gysylltiedig â'r ddau fywyd (1 Corinthiaid 7). Efallai fod hyn yn deillio o asgetigiaeth a gwreig-gasineb rhai mathau o athroniaeth Roegaidd[11]. Gwnaeth mamau a thadau'r anialwch a sylfaenwyr mynachaeth ddiweirdeb yn sail i'w ffordd o fyw. Heb blant nac eraill yn dibynnu arnynt, gallent ffurfio cymunedau i ddisodli a beirniadu'r teuluoedd roeddent wedi deillio ohonynt.

9. Roedd diweirdeb, felly, yn rhyddhau ac yn her aruthrol i'r rolau a'r disgwyliadau o ran rhyw a fodolai yn y gymdeithas ehangach. Am y rhesymau gorau, roedd yn caniatáu i ferched wrthod awdurdod eu rhieni, i fenywod gymryd rolau arweiniol a rhagoriaeth ysgolheictod, i ddynion nyrsio a meithrin, i bobl fynegi perchnogaeth o'r defnydd o'u cyrff a thorri'r disgwyliadau a roed arnynt gan eu rhyw neu eu rhywioldeb [12]. Roedd hefyd yn gorfodi'r Eglwys ehangach i ddod o hyd i ffyrdd o gefnogi'r rhai nad oedd eu hanghenion bellach yn cael eu diwallu'n awtomatig gan eu teuluoedd. Serch hynny, galwad y lleiafrif oedd hyn bob amser.

10. Mae datganiadau cynharaf yr Eglwys ynglŷn â phriodas, ar y llaw arall, yn aml yn llugoer ac yn bennaf yn ymwneud â rhesymau derbyniol dros ysgaru ac ailbriodi. Caiff y pethau hyn eu trin fel materion bugeiliol. Gwelir priodas fel rhan gyfan o fywyd Cristnogol yn hytrach na mater y dylai'r Eglwys osod ffiniau ar ei gyfer. Newidiodd hyn pan roddodd Constantine Fawr yr hawl i esgobion weithredu fel ynadon, a phenderfynu ar achosion anodd neu ddadleuol.

11. Yn y chweched ganrif, creodd codau cyfraith Gristnogol yr Ymerawdwr Justinian gyfraith lawer cynharach a daeth yn sail i gyfraith priodas Orllewinol am fileniwm a mwy. Oedran glasoed yw'r cymhwysedd a bennir fel y'i diffinnir gan y gyfraith (pedair ar ddeg i fechgyn a deuddeg i ferched). Mae cydsyniad

[10] Effesiaid 5.21-6.9 er enghraifft
[11] Dadleuir hyn yn Abbott, E. 2000 *A History of Celibacy*. Caergrawnt, MA: Da Capo Press: tt43-44
[12] Ym Mywydau'r Saint yn yr oesoedd canol cynnar mae patrwm parhaus o fenyw ifanc yn herio ymgais ei theulu i drefnu priodas ar ei chyfer, waeth pa mor fanteisiol, ac sy'n falch o gofleidio bywyd diwair o weddi. Dyma sy'n sail i hanesion y ddwy Santes o Gymru, Melangell a Gwenffrewi, yn ogystal ag eraill.

y cwpl yn parhau'n sail i briodas ond mae'n rhaid cael caniatâd y tad. Nid yw cyplau sy'n cydfyw yn cael eu cydnabod yn gwpl priod ac ystyrir eu plant yn anghyfreithlon, a chanddynt yr un statws â phlant puteiniaid, er y gall llysoedd adfer eu statws os bydd eu rhieni'n priodi maes o law [13]. Mae'n rhagdybio bod cwpl sy'n priodi yn wryw-benyw.

12. O ddiwedd y bedwaredd ganrif daeth yn arfer i'r offeiriad neu'r esgob fendithio cwpl a oedd yn priodi, naill ai ar y diwrnod cynt neu yn y neithior neu ar ddiwrnod y Cymun Bendigaid. Ystyriwyd hyn yn anrhydedd ac yn arwydd bod y clerig yn cymeradwyo'r pâr. Yn raddol dechreuodd y clerig gael rôl fyw symbolaidd, gan uno dwylo'r cwpl neu roi fêl neu dorch drostynt. Datblygodd hyn yn seremoni lle'r oedd yr offeiriad yn uno'r cwpl ynghyd ac yn eu bendithio. Erbyn yr wythfed ganrif roedd y dull hwn o briodi wedi dod yn gyffredin a bu'n rhaid pasio deddfwriaeth sifil newydd i ddatgan y priodasau hyn yn ddilys. Eithriad i hyn oedd priodas clerigion, o oddeutu 400 ymlaen, gan fod disgwyl iddynt gael seremoni mewn eglwys.

13. Ymhlith llwythi llai Rhufeinig Gogledd Ewrop, roedd traddodiadau'n amrywio, ond ystyrid priodas yn fwy o drefniant eiddo, fel yn oes y Rhufeiniaid cynnar. Ar ôl trafodaethau rhwng y ddau deulu, byddai'r cwpl yn dyweddïo, yn cyfnewid addunedau a modrwy, ond yn wahanol i'r arfer Iddewig, roedd y briodas go iawn yn digwydd wrth gyfnewid pris y briodferch a'r gwaddol terfynol a thad y briodferch yn trosglwyddo ei ferch i ofal ei gŵr. Cynhelid gwledd neu ddathliad a'r cwpl yn y diwedd yn mynd i mewn i'w hystafell briodasol i gyflawni'r briodas (a'r briodas yn gyflawn ddim ond ar ôl y weithred o'i chyflawni).[14] Ar ei gwaethaf, gellid ystyried trais a chydfyw gorfodol trwy herwgipio yn briodas.[15] Gallai'r offeiriad fod yn westai a byddai'n bendithio'r wledd neu'r gwely priodasol, neu'n bendithio'r cwpl yn y Cymun Bendigaid ar ddiwrnod y briodas neu drannoeth y briodas.

14. Arweiniodd y gwahanol ddulliau hyn o briodi at gryn drafodaethau, rhai enghreifftiau o ffugio dogfennau hynafol a llawer o ddryswch. Dechreuodd cynghorau argymell y dylid cynnal priodasau yn gyhoeddus gyda'r offeiriad yn dyst yn ogystal ag yn bendithio'r briodas. O ganlyniad dechreuwyd cynnal priodasau yn nes at adeiladau'r eglwys, gan symud yn araf tuag at ddrws yr eglwys, ac yna i mewn i'r adeilad ei hun. Erbyn 1100, y patrwm arferol ledled Ewrop oedd i'r cwpl ddyweddïo ac yna dod i'r eglwys ar ddiwrnod y briodas lle byddai'r offeiriad yn cyfarfod â nhw wrth y drws ac yn gofyn iddynt a oeddent yn cydsynio i'r briodas. Yna byddai'n gofyn i dad y briodferch am ei ganiatâd ac yn goruchwylio'r broses o drosglwyddo'r gwaddol, yn bendithio'r fodrwy a

[13] Coleman 2004: t154

[14] Dyma'r sefyllfa a bortreadwyd yng Nghymru yn y Mabinogion, ac mae cyfreithiau Hywel Dda yn pwysleisio hyd y cyd-fyw yn hytrach na chontract fel sail i briodas.

[15] Pan ddiddymwyd priodas Eleanor o Aquitaine â Brenin Louis o Ffrainc, cafwyd sawl ymgais i'w herwgipio ar ei ffordd yn ôl i Aquitaine er mwyn ei gorfodi i briodi ac ennill un o'r tywysogaethau cyfoethocaf yn Ewrop.

roddai'r priodfab i'r briodferch ac yn bendithio'r briodas. Yn ystod yr offeren briodasol rhoddwyd fêl ar y briodferch a'i bendithio. Yn ystod y cusan heddwch byddai'r offeiriad yn cusanu'r priodfab, a'r priodfab wedyn yn cusanu'r briodferch.

15. Yn y 1220au ym Mharis, cafwyd cryn ddadlau yn sgil penderfyniad Peter Lombard i gynnwys priodas fel un o'r saith sacrament yn ei werslyfr dylanwadol ar ddiwinyddiaeth - The Sentences.[16] Sefydlodd diwinyddion rai egwyddorion craidd. Daeth yr 'arwydd allanol' i olygu cydsyniad y ddwy ochr (yr opsiynau a wrthodwyd yn y diwedd oedd y fendith offeiriadol neu gyflawniad neu uniad y cwpl). Y 'gras ysbrydol' oedd uniad metaffisegol y cwpl megis uniad Crist a'r Eglwys. Gweinidogion y sacrament oedd y cwpl eu hunain. Roedd y ddealltwriaeth hon yn golygu mewn gwirionedd nad oedd angen unrhyw seremoni na bendith.

16. Erbyn diwedd yr Oesoedd Canol, roedd y ddefod briodasol hon wedi dod yn rhan annatod o gymdeithas. Dim ond trwy farwolaeth y gellid torri'r sacrament priodasol - a oedd yn sacrament yn dynodi'r uniad rhwng Crist a'r Eglwys (yn sgil cyfraddau marwolaeth uchel roedd priodasau yr adeg honno ar gyfartaledd yn fyr o gymharu â heddiw), er y gellid caniatáu diddymiad. Llysoedd yr eglwys, yn hytrach nag awdurdod sifil oedd yn dyfarnu ar y materion hyn. Adeg y Diwygiad, cadwodd yr Eglwys Babyddol y safbwynt sacramentaidd uchel hwn a'i gadarnhau. O 1536 ymlaen, roedd priodas i Babyddion dan amgylchiadau arferol yn ddilys yn unig os oedd wedi'i chynnal mewn seremoni eglwysig ym mhresenoldeb yr offeiriad a dau dyst, ar ôl cyhoeddi gostegion am dair wythnos er mwyn sicrhau cymhwysedd a manylion a nodwyd yn unol â hynny yng nghofnodion y plwyf.

17. Roedd Luther, fodd bynnag, yn credu nad busnes yr Eglwys oedd diffinio cyfraith briodasol. Roedd yn gweld priodas fel cydsyniad rhwng dau unigolyn, cytundeb cyfreithiol ydoedd yn hytrach na sacrament, rhywbeth sy'n gyffredin i bob bod dynol. Dywedodd na allai neb wadu bod priodas yn fater allanol a seciwlar, fel bwyd a dillad, tai a thir, ac yn destun goruchwyliaeth sifil. Credai y dylai'r Eglwys adael i bob dinas a thalaith felly gynnal eu harferion eu hunain yn hyn o beth.[17] Cytunodd Calvin â Luther ac ni adawodd Eglwys Lloegr yn ei dyddiau cynnar i bwyslais sacramentaidd gael ei roi ar briodas[18].

18. Mae'r Llyfr Gweddi yn unfryd gadarnhaol am briodas fel galwad Gristnogol, ac mae'n cynnig tri rheswm pam y rhoes Duw briodas i ddynol-ryw: i genhedlu plant; i gadw dyn rhag pechod; ac i ddarparu'r gymdeithas, y cymorth a'r

---

16 Safbwynt Anglicaniaeth ynghyd â'r traddodiadau mwyaf diwygiedig yw bod dau sacrament trwy ordinhâd Crist a bod y gweddill yn ordinadau eilaidd neu'n sagrafenolion.

17 Martos 1981: tt435-436

18 Mae'r drafodaeth a gafwyd yn ystod y Diwygiad ynghylch a oedd priodas yn sacrament ai peidio yn cael sylw ym mhapur Ainsley Griffiths ar wefan yr Eglwys yng Nghymru.

cysur y dylai'r naill ei ddangos tuag at y llall.[19] Nid yw hynny'n golygu bod Diwygwyr Lloegr wedi mabwysiadu agwedd agored a goddefol tuag at berthynas rywiol; roeddent yn collfarnu godinebu a phuteindra, sy'n cael eu diffinio yn Homili 11 o'r Llyfr Cyntaf o Homiliau (1547) i gynnwys "all unlawfull use of those parts, which bee ordeyned for generation."[20]

19. Yn ei Homili ar Briodas, mae'r Esgob Jewel yn ymhelaethu gan bortreadu bywyd priodasol fel ffurf ar ryfela ysbrydol, lle mae Satan yn ceisio tarfu ar harmoni'r rhwymyn sy'n rhodd gan Dduw. Mae gŵr a gwraig i fod yn bartneriaid mewn gweddi am y rheswm hwn. Mae'n pwysleisio'r cariad sydd gan y naill at y llall a'r angen i gymryd camau i warchod y peth gwerthfawr hwn, sef, bod cariad hyfryd a melys rhwng y pâr bellach, ac y bydd y diafol, yn hytrach, yn ceisio achosi'r gynnen fwyaf diflas a chwerw rhyngddynt: "That whereas now there is pleasant and sweet love betwixt you, he [the devil] will in the stead thereof, bring in most bitter & unpleasant discord"[21]. Roedd Eglwys Loegr yn datblygu diwinyddiaeth priodas a allai ategu'r cyflwr priodasol, nid fel rhywbeth eilradd ar gyfer Cristnogion a fethodd, ond fel llwyfan i ddisgyblaeth a thwf Cristnogol.

20. Erbyn y ddeunawfed ganrif, ym Mhrydain, roedd sawl ffurf ar briodas y gallai cyplau eu defnyddio er mwyn cyfrif eu bod yn briod. Os oedd y cwpl yn rhydd i briodi gallent gael seremoni eglwysig, cyfnewid eu caniatâd yn breifat gyda neu heb dystion, neu gymryd rhan mewn seremoni dan law amrywiol fathau o weinyddion. Pe codai unrhyw amheuaeth ynghylch eu statws priodasol, gallent ofyn i ynad lleol am dystysgrif a oedd yn 'ddatganiad o briodas'. Byddai'r ynad yn gwrando ar dystiolaeth ynghylch eu cydfyw ac yn ymgynghori â ffrindiau a chymdogion i weld a oedd y pâr wedi cyfeirio at ei gilydd fel gŵr a gwraig, nid edrych am dystiolaeth a thystion y seremoni yn unig.

21. Ym 1754, gyrrwyd bil drwy'r Senedd gan yr Arglwydd Ganghellor, yr Arglwydd Hardwicke, sy'n sail i gyfraith priodas ym Mhrydain heddiw. Roedd Deddf Priodas Hardwicke yn datgan bod priodas, er mwyn ei hystyried yn ddilys yng Nghymru a Lloegr, yn gorfod digwydd yn yr Eglwys Anglicanaidd leol, gyda'r clerig Anglicanaidd yn cynnal y seremoni'n unol â'r llyfr gweddi, gan alw'r gostegion a chael caniatâd rhieni os oedd y gŵr neu'r wraig o dan 21 oed. Yr unig eithriadau i'r Ddeddf oedd Iddewon, Crynwyr a'r Teulu Brenhinol. Ni chafodd Deddf Hardwicke ei phasio'n gyfraith yn yr Alban. Roedd y Ddeddf hefyd yn cyflwyno'r egwyddor mai'r wladwriaeth a oedd yn diffinio pwy oedd wedi priodi a sut y daeth y briodas honno i fod, gyda'r Eglwys Anglicanaidd yn plismona'r gyfraith ar ran y wladwriaeth.

19 http://www.churchofengland.org/prayer-worship/worship/book-of-common-prayer/the-form-of-solemnization-of-matrimony.aspx
20 http://www.anglicanlibrary.org/homilies/bk1hom11.htm
21 http://www.anglicanlibrary.org/homilies/bk2hom18.htm

22. Cychwynnodd priodasau a gynhaliwyd gan y wladwriaeth yn unig yn Ffrainc ym 1792 fel rhan o wrth-glerigiaeth y Chwyldro Ffrengig. Daeth priodas sifil i Brydain ym 1836 fel consesiwn i anghydffurfwyr ac ymneilltuwyr. Gydag amser, mae seremonïau wedi dod yn rhan o briodas sifil, gyda deddfwriaeth yn caniatáu amrywiaeth o leoliadau ar gyfer priodasau. Mae Prydain yn wahanol yn hyn o beth. Mae'r rhan fwyaf o wledydd Ewrop yn mynnu cael cofrestriad sifil o'r briodas, gan adael y cwpl i greu seremoni yn ôl eu dymuniad. Yn Israel, mae cyplau yn priodi yn ôl eu dymuniad, ac yna'n cofrestru gyda'r wladwriaeth. Nid oes gan y wladwriaeth hawl i weinyddu'r seremoni.

23. Am ryw hyd, glynodd priodas yn Lloegr at athrawiaeth Eglwys Loegr ar briodas. Ym 1866, mewn achos amlwreiciaeth (Hyde v Hyde a Woodmansee), mewn datganiad gan James Wilde, a ddaeth yn Farwn Penzance maes o law, crynhowyd safbwynt yr Eglwys, y wladwriaeth a chymdeithas ar briodas mewn geiriau a ddyfynnir hyd heddiw mewn priodasau sifil: "Ystyriaf y gellir diffinio priodas, fel y'i deellir yng Ngwledydd Cred, i'r diben hwn fel uniad gwirfoddol rhwng un dyn ac un fenyw, gan eithrio pob un arall".[22]

24. Fodd bynnag, cafwyd newid sylweddol yn yr hyn y mae cyplau'n ei ddisgwyl o briodas. Nid yw ansawdd y berthynas bellach yn hollbwysig. Mae diwygiadau i'r llyfr gweddi yn dangos y newid pwyslais hwn er iddo barhau i gadw'r iaith a ddefnyddiwyd ym 1662. Yn hytrach na dweud bod priodas yn "ateb i bechod" rydym ni'n dweud ei fod yn : "rhodd oddi wrth Dduw. Trwyddi gall gŵr a gwraig gyd-dyfu yn eu hadnabyddiaeth o Dduw, eu cariad ato a'u gwasanaeth iddo ….Y mae Duw yn uno gŵr a gwraig mewn uniad am oes sy'n sylfaen i fywyd teuluol (y genir ac y megir plant ac) y gall pob aelod o'r teulu, mewn amseroedd da ac amseroedd drwg, gael cysur, cwmnïaeth a nerth a thyfu i aeddfedrwydd mewn cariad. Y mae priodas yn cyfoethogi'r gymdeithas ac yn cryfhau'r gymuned" [23].

25. Yn y byd gorllewinol, mae gwladwriaethau sy'n bryderus ynghylch y posibilrwydd o briodi at ddibenion mewnfudo, ar hyn o bryd yn cyfyngu ar y cysyniad o fwriad ac yn cynnwys syniadau am gysylltiad rhamantaidd. Yn yr Unol Daleithiau, er enghraifft, mae'n rhaid i gyplau gytuno i weithdrefn ymyrrol er mwyn pennu pa berthnasau sy'n 'ddilys' hyd yn oed pan fo priodas wedi'i chynnal yn gyfreithlon. Ym Mhrydain hefyd, gofynnir i glerigion fod yn wyliadwrus ynghylch priodasau 'ffug' at ddibenion mewnfudo a dinasyddiaeth[24]. Mae mwy a mwy o gyplau'n priodi ar ôl cydfyw am gyfnod hir, ac yn ystyried priodas fel y goron ddewisol ar eu perthynas yn hytrach na'r

[22] *Hyde v Hyde and Woodmansee* (1866) Adroddiadau'r Gyfraith 1 Profiant ac Ysgariad 130

[23] Corff y Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru, 2011, *Gwasanaethau Priodas.* Caerdydd: Gwasg Yr Eglwys yng Nghymru. tud 37

[24] Abbott, E. 2010. *A History of Marriage.* Llundain: Duckworth Overlook, tud 391

sylfaen. Mae hyn yn peri problemau i wladwriaethau a chymdeithasau o ran i ba raddau y dylent estyn breintiau priodas i bobl sydd â threfniadau cydfyw o'r fath.

26. O ran cyplau o'r un rhyw yn cyd-fyw, mae'r cyd-destun cyfreithiol a diwylliannol ym Mhrydain ac mewn mannau eraill wedi newid yn sylweddol dros y degawdau diwethaf. Ym 1988, roedd Adran 28 o Ddeddf Llywodraeth Leol yn gwahardd 'hyrwyddo cyfunrhywiaeth' mewn cyd-destunau penodol. Er hynny, y flwyddyn ganlynol, am y tro cyntaf mewn opera sebon Brydeinig, darlledwyd cusan ceg-ar-geg rhwng cwpl hoyw ar Eastenders. Difrïwyd yr olygfa gan The Sun a'i disgrifio'n 'love scene between yuppie poof,' ymateb na ellid ei ddychmygu yn ein dyddiau ni. Ym 1994, methu o fewn trwch blewyn fu hanes yr ymgais i gyfartalu oed cydsyniad ar gyfer cael rhyw cyfunrhywiol i 16 oed, drwy Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a Threfn Gyhoeddus, ond llwyddwyd i wneud hyn yn 2000 yn sgil Deddf Troseddau Rhywiol (Diwygio). Yn yr un flwyddyn, codwyd gwaharddiad gan y fyddin Brydeinig a chaniatáu i fenywod a dynion fod yn agored ynghlych eu cyfunrhywioldeb. Pasiwyd cyfreithiau'n gwahardd gwahaniaethu ar sail rhywioldeb yn yr amrywiol awdurdodaethau Prydeinig yn 2004, 2008 a 2010.

27. Ym mis Gorffennaf 2012 yn yr Unol Daleithiau, cymeradwyodd Eglwys Esgobol yr Unol Daleithiau (yr Eglwys Anglicanaidd yn UDA) wasanaeth ar gyfer bendithio perthnasau o'r un rhyw. Eglurodd cynrychiolydd materion cyfryngau, Nancy Davidge, mai ateb diwinyddol i berthynas fonogamaidd ymrwymedig oedd y fendith.[25] Mae bendithion tebyg wedi'u hawdurdodi yn yr Eglwys Anglicanaidd yng Nghanada.[26] Yn 2003, cynhaliwyd y fendith gyntaf yn Vancouver. Beirniadodd adroddiad Cymundeb Anglicanaidd 2004 (adroddiad Windsor) y datblygiadau hyn. Wrth ymateb, cytunodd yr Esgob Michael Ingham o New Westminster na fyddai'n annog na chymell bendithio perthnasau o'r un rhyw mewn rhagor o blwyfi. Erbyn 2013, roedd 11 esgobaeth yn eu hamrywiol ffyrdd yn cynnig bendithio perthnasau o'r un yng nghorff llywodraethol Eglwys Anglicanaidd Canada. Ym mis Gorffennaf 2013, cymeradwyodd y Synod Cyffredinol y cynnig y byddai'n rhoi mater priodas o'r un rhyw i bleidlais yng nghyfarfod corff llywodraethol Eglwys Anglicanaidd Canada yn 2016. Yn ei gyfarfod teirblwydd yng Nghanada, pasiodd y Synod Cyffredinol Benderfyniad C003, yn gofyn i Gyngor y Synod Cyffredinol baratoi a chyflwyno cynnig i newid Canon 21 yr eglwys ar briodas a chaniatáu priodi cyplau o'r un rhyw yn ogystal â chyplau o ryw cyferbyniol. Cymeradwywyd y cynnig gan fwyafrif o 66% o urddau'r esgobion, y clerigion a'r lleygion.

---

25 Mae adroddiad yr Eglwys Esgobol '*I will bless you and you will be a blessing'* yn darparu'r cyfiawnhad diwinyddol ar gyfer y weithred hon, a hefyd yn darparu litwrgi. https://www.ctepiscopal.org/images/customer-files/I_Will_Bless_You_Corrected.pdf Comisiwn Sefydlog ar Litwrgi a Cherddoriaeth 77fed Confensiwn Cyffredinol yr Eglwys Esgobol, Gorffennaf 2012

26 http://www.anglican.ca/faith/focus/hs/ssbh/hsrg/02-resources/

28. Yn ddiwylliannol, mae perthnasau cyfunrhywiol yn cael eu hystyried fwyfwy yr un fath â rhai heterorywiol. Er bod pobl sy'n cymryd rhan mewn rhai chwaraeon, yn enwedig pêl-droed proffesiynol, yn ei chael hi'n anodd 'dod allan' fel personau hoyw, nid yw hyn mor wir mewn llawer o feysydd chwaraeon eraill. Roedd yr ymateb i ddisgrifiad Jan Moir o farwolaeth yr eilun pop hoyw Stephen Gately yn The Mail yn 2009 yn garreg filltir arall yn y newid Agwedd diwylliannol tuag at gyfunrhywioldeb. Bellach, nid yw cymeriadau hoyw a chyplau o'r un rhyw ar deledu Prydain yn denu unrhyw sylw ynghylch eu rhywioldeb.

29. Daeth Partneriaethau Sifil ar gyfer cyplau o'r un rhyw yn gyfraith yng Nghymru a Lloegr yn 2005. Disgrifiwyd hyn fel trefniant cyfreithiol ynghylch hawliau eiddo ac etifeddiaeth, ond bron ar unwaith daeth yn seremoni gydag addunedau sy'n cyfateb yn union bron i rai priodas sifil heterorywiol. Mae mwy a mwy o'r cyhoedd yn cydnabod yr uniadau hyn fel priodas, gyda nifer cynyddol yn defnyddio ymadroddion fel 'gŵr' a 'gwraig' i ddisgrifio'r partneriaid gan lwyr fabwysiadu traddodiadau'r briodas heterorywiol. Derbyniodd priodas rhwng cyplau o'r un rhyw Gysyniad Brenhinol ym mis Gorffennaf 2013, a bydd y seremonïau yn cael eu perfformio ar ôl mis Mawrth 2014. Bydd priodas y wladwriaeth a phriodas eglwysig bellach yn gwahanu unwaith eto ym Mhrydain. Mae'n wir fod yr eglwys a'r wladwriaeth wedi anghytuno'n chwyrn. Cafwyd yr anghytundeb cyntaf ym 1835 (tan 1907) ynghylch Table of Kindred and Affinity (Ar ôl marwolaeth ei wraig, a gaiff dyn briodi chwaer ei wraig?), ac eto ym 1937 ar ryddfrydoli ysgariad gan y wladwriaeth. Roedd Archesgob Lang yn teimlo mai dyma oedd y trobwynt. Roedd hi'n 2002 cyn i Eglwys Loegr ganiatáu i bobl a oedd wedi ysgaru briodi yn yr eglwys o dan amgylchiadau penodol, gan gyfaddasu â chyfraith sifil (bu rhywfaint o ddisgresiwn gan yr Eglwys yng Nghymru ar y mater hwn ers y 1990au ). Nawr, mae cyflwyno priodas cyplau o'r un rhyw yn achosi mwy o densiwn. Bydd hyn yn her sylweddol i'r ffordd y bydd yr eglwys yn cyfaddasu â'r wladwriaeth ar eu hathrawiaeth ar briodas.

30. Yr agwedd fwyaf parhaol ar briodas yn y Gorllewin yw cydsyniad y ddau unigolyn i fyw ynghyd mewn priodas. Os mai nhw yw gweinidogion sagrafennol priodasol ei gilydd, dyma fel y dylai fod. Efallai bod hyn yn hynod o amlwg ond mae'n golygu bod y wladwriaeth, y teulu a'r Eglwys o bosibl bob amser ar y droed ôl, yn ymdrechu i gynnig, er gwell neu er gwaeth, gyngor, strwythur a gwarchodaeth wrth i gyplau gyflawni eu priodasau.

# Gwyddoniaeth Cyfeiriadedd Rhywiol:

## Goblygiadau wrth i'r Eglwys Ystyried Partneriaethau o'r Un Rhyw

31. Ar adeg o newid radical mewn agwedd at berthnasau o'r un rhyw yn ein cymdeithas, gall yr Eglwys ymddangos fel pe bai ynghanol gornest ddiwinyddol rhwng y rhai sydd o blaid cadw athrawiaethau traddodiadol a'r rhai a fyddai'n croesawu cael bendithio partneriaethau o'r un rhyw mewn eglwys.

32. Mae'n hanfodol clywed profiadau ac argyhoeddiadau'r sawl y mae atyniad at bobl o'r un rhyw yn realiti bywyd. Wrth baratoi'r adroddiad hwn ar gyfer Mainc yr Esgobion a'r Corff Llywodraethol, mae'r Comisiwn Athrawiaethol wedi gwrando dan amodau cyfrinachol ar unigolion gydag amrywiaeth eang o brofiadau a safbwyntiau – unigolion y mae cwestiynau sy'n ymwneud â dealltwriaeth yr Eglwys o gyfunrhywioldeb yn rhai gwirioneddol bersonol.

33. Roedd y rhan fwyaf o'r rhai a siaradodd â'r Comisiwn wedi cyfeirio at astudiaethau gwyddonol a oedd wedi eu helpu i ddeall eu profiad, neu i lywio eu hystyriaethau diwinyddol. Fel rhan o'r adroddiad hwn, teimlwyd ei bod yn ddefnyddiol cynnwys rhai myfyrdodau ar natur yr ymdrech wyddonol a'r goblygiadau i'r Eglwys wrth ystyried y pwnc hwn.

34. Mae'r cwestiwn a yw cyfeiriadedd rhywiol yn cael ei bennu'n fiolegol neu yn ddiwylliannol wedi bod yn un dadleuol ers tro. Mae pobl o blaid y naill ochr i'r ddadl a'r llall, ac mae'r llenyddiaeth sydd ar gael am y maes yn llawn astudiaethau disylwedd sy'n ceisio cyflwyno data prin mewn modd sy'n atgyfnerthu rhagdybiaethau blaenorol (a posteriori) yr ymchwilwyr eu hunain.

35. Pan ddaw yn amser crynhoi a threfnu'r data, mae'n bwysig cofio fod astudiaethau gwyddonol yn aml yn codi cymaint o gwestiynau newydd ag y maent yn eu hateb o'r rhai cyfredol. Mae diwinyddiaeth a gwyddoniaeth fel ei gilydd yn y bôn yn ymwneud ag ymateb i realiti ac felly dylent symud ymlaen at y diweddaraf (a posteriori) - hynny yw symud o arsylwadau i ddamcaniaethau ac yna i theorïau a chyfreithiau.[27]

36. Yn y blynyddoedd diweddar, cynhaliwyd ymchwil i darddiad cyfeiriadedd cyfunrhywiol gan ddefnyddio nifer o ddulliau gwyddonol. Mae nifer o astudiaethau niwrolegol wedi adrodd am wahaniaethau hormonaidd neu niwro-anatomaidd rhwng dynion cyfunrhywiol a heterorywiol, ac mae gwyddonwyr cymdeithasol wedi nodi dylanwadau datblygiadol, cymdeithasol a diwylliannol posibl ar gyfeiriadedd rhywiol.

37. Wrth astudio poblogaethau, ceisiwyd cwestiynu arwyddocâd ffactorau genetig trwy gofnodi'r achosion o atyniad cyfunrhywiol ymhlith setiau o efeilliaid unfath. Beirniadwyd rhai o'r ymchwiliadau cynnar ar sail eu samplau bach, ond adroddodd astudiaeth a gynhaliwyd yn 2010 o'r holl efeilliaid sy'n

[27] McGrath, A.E. 2001 *A Scientific Theology*, Cyfrol 2: Reality Caeredin: T&T Clark: tt123-124

oedolion yn Sweden y gellir egluro ymddygiad yr un rhyw trwy ffactorau etifeddol ac amgylcheddol.

38. Mae'n ddyddiau cynnar ar yr holl ymchwiliadau hyn. Mae'r rhan fwyaf ohonynt wedi gofyn i unigolion nodi eu hunain eu bod o gyfeiriadedd cyfunrhywiol, ac er bod agweddau cymdeithasol at gyfunrhywioldeb yn newid yn gyflym, gellir tybio bod rhai sydd â phryderon cymdeithasol ac argyhoeddiadau crefyddol ynghylch cyfunrhywioldeb yn gyndyn i siarad yn agored am deimladau o atyniad at yr un rhyw.

39. Mae'r ystadegau a rhyddhawyd yn ddiweddar ar ymddygiad rhywiol yn y DU yn dangos rhai newidiadau radical mewn agweddau yn ystod yr 20 mlynedd diwethaf ond maent hefyd yn dangos bod pobl yn barod i siarad am fanylion hynod bersonol eu gweithgareddau rhywiol mewn modd nad oedd pobl yn barod i wneud yn y gorffennol. O ganlyniad, gall hyn gael effaith sylweddol ar gwmpas yr astudiaethau gwyddonol y gellir eu cynnal yn y blynyddoedd i ddod.

40. Yn ogystal â chyfyngu ar faint setiau data, mae yna hefyd gyfyngiad cyfredol ar yr amserlen ar gyfer astudiaethau hydredol. Er mwyn deall datblygiad cyfeiriadedd rhywiol, bydd angen ailymweld â phynciau dros nifer o flynyddoedd - gofyniad nad yw hyd yma wedi'i fodloni yn y maes gweddol newydd hwn.

41. Felly ni ellir honni ar hyn o bryd fod gwyddoniaeth wedi ateb y cwestiwn ynghylch tarddiad cyfeiriadedd rhywiol, ond mae'r dystiolaeth gronnol o astudiaethau a wnaed hyd yma'n cefnogi'r achos o blaid rhai penderfynwyr biolegol. Nid oes tystiolaeth bod 'genyn hoyw' - yn hytrach awgrymir mai ffactorau amlenetig sy'n dylanwadu ar gyfeiriadedd rhywiol. Er mwyn asesu'r cyfryw ffactorau'n gynhwysfawr, bydd yn rhaid astudio dilyniant genomau nifer fawr o bobl gyfunrhywiol.

42. Cwestiwn dadleuol arall yw a oes modd i unigolyn newid o gyfeiriadedd cyfunrhywiol i gyfeiriadedd heterorywiol. Yn sicr, ceir adroddiadau am hyn, ond mae'n anodd asesu a ddylid dosbarthu profiad yr unigolyn dan sylw fel newid mewn cyfeiriadedd neu fel llwyddiant i oresgyn pryderon ynghylch agosatrwydd heterorywiol neu ail-addasu chwantau rhywiol.

43. Yn ystod plentyndod neu lasoed cynnar, gall gweithgaredd rhywiol fod yn fodd o arbrofi neu archwilio, nad yw'n cyfateb i gyfeiriadedd rhywiol parhaol yr unigolyn. Mae ystadegau diweddar yn awgrymu bod mwy a mwy o bobl o gyfeiriadedd heterorywiol wedi cyflawni gweithgaredd rhywiol gyda'r un rhyw ar ryw adeg yn eu bywyd.

44. O gymharu â chanlyniadau Arolwg o Agweddau Rhywiol 1990-1991, mae menywod bellach yn llawer mwy tebygol o fod wedi cael rhyw gyda rhywun o'r

un rhyw. Mae 7.9% o fenywod wedi gwneud hynny, o gymharu â 1.8% ddau ddegawd yn ôl. I ddynion, y ffigur yw 4.8% o gymharu â 3.6% cynt.

45. Maes gwahanol iawn o ymchwilio gwyddonol yw ymarfer seicolegol a seico-ddadansoddol, sydd wedi codi cwestiynau ynghylch iechyd meddwl a lles pobl sydd wedi profi atyniad at yr un rhyw.

46. Mae corff mawr o dystiolaeth ymchwil sy'n dangos fod bod yn hoyw, lesbiaidd neu'n ddeurywiol yn gydnaws ag iechyd meddwl normal ac addasiad cymdeithasol. Fodd bynnag, mae profiadau o ragfarnau cymdeithasol a'r posibilrwydd o gael eu gwrthod gan ffrindiau, teulu, cyflogwyr ac eraill yn golygu bod rhai pobl lesbiaidd, hoyw a deurywiol yn profi mwy na'r disgwyl o broblemau iechyd meddwl a chamddefnydd sylweddau.

47. Bydd rhai'n awgrymu bod perthynas gyfunrhywiol yn ei hanfod yn llai sefydlog na pherthynas heterorywiol. Serch hynny, gall unrhyw ganlyniadau sy'n cefnogi'r rhagdybiaeth gyffredin hon eu hunain fod yn gysylltiedig ag agweddau cymdeithasol cyfredol tuag at berthnasau cyfunrhywiol. Mae Coleg Brenhinol y Seiciatryddion yn dadlau bod cydnabyddiaeth gymdeithasol o berthnasau o'r un rhyw yn debygol o leihau gwahaniaethu, cynyddu sefydlogrwydd y cyfryw berthnasau ac arwain at well iechyd corfforol a meddyliol i bobl hoyw a lesbiaidd.[28]

48. Mae'r dystiolaeth wyddonol a gasglwyd hyd yma'n cefnogi'r safbwynt na ddylid ystyried cyfeiriadedd cyfunrhywiol fel patholeg ond fel nodwedd naturiol sydd, ymhlith nifer fach ond arwyddocaol o bobl, wedi'i phennu cyn eu geni. Wrth gwrs, nid yw'r dynodiad hwn yn ei hun yn rhoi taw ar y ddadl ynghylch a yw gweithgareddau rhywiol rhwng yr un rhyw yn foesol neu'n ddiwinyddol dderbyniol.

49. Yn ogystal, os gwelir bod rhagor o ymchwil eang yn cefnogi'r ddamcaniaeth uchod, mae'n bosibl y bydd rhai astudiaethau gwyddonol yn galw am ailddiffinio'r fenter ddiwinyddol - fel nad yw'r flaenoriaeth yn gofyn "sut y gellir newid chwantau cyfunrhywiol?" ond yn gofyn "beth oedd bwriad Duw yn creu byd fel hwn?" Mae'r cwestiwn hwn wedi'i ofyn mewn sawl ffordd. Er enghraifft "Mae Duw yn creu pobl gyfunrhywiol felly, ond yn gwahardd unrhyw weithgarwch cyfunrhywiol. Mae hyn yn gyfystyr â phroblem wirioneddol oherwydd nid yw'n hunanamlwg pam y byddai Duw yn gwneud y fath beth." Neu "A oes i gyfunrhywioldeb bwrpas dwyfol?"

50. Nid yw ac ni ddylai gwyddoniaeth bennu athrawiaethau'r Eglwys. Serch hynny, bydd gan unrhyw wyddonydd sy'n meddu ar safbwynt byd sy'n un Cristnogol ddealltwriaeth o'i waith fel cyfranogiad mewn rhan fechan ond breintiedig o hunan-ddatguddiad parhaol Duw i ddynolryw. Wrth i ni ryfeddu at

[28] Cyflwyniad Coleg Brenhinol y Seiciatryddion *Church of England Listening Exercise on Human Sexuality* http://www.rcpsych.ac.uk/members/specialinterestgroups/gaylesbian/submissiontothecofe.aspx

ddarganfyddiadau gwyddonol newydd ac wrth i'r cyfryw ddarganfyddiadau ymhen amser integreiddio i mewn i'n golwg o'r byd, maent yn siŵr o effeithio ar ein dealltwriaeth o'r ysgrythur.

51. Wrth i ni ddarllen yn Genesis 1 fod Duw wedi creu dyn ar ei lun a'i ddelw ei hun, gall ein hastudiaethau gwyddonol ein harwain i ofyn y cwestiwn sut mae nodwedd ddynol benodol yn berthnasol i'r ddelwedd honno ac i fwriad creadigol Duw. Pan fyddwn yn darllen yn Rhufeiniaid 1 fod "y meibion yr un modd wedi gadael heibio gyfathrach naturiol â merch" (ac os yw'n astudiaethau gwyddonol yn ein harwain i gasglu y byddai'r gyfathrach a roddwyd heibio, i rai dynion wedi bod yn annaturiol yn y lle cyntaf), byddwn am ystyried y cyd-destun hanesyddol yr oedd Paul yn siarad ynddo a gofyn sut y byddai o bosibl wedi egluro gwyriad oddi wrth y naturiol pe bai'n siarad yng nghyd-destun anhrefn penodol ein byd heddiw.

## Lle'r Ysgrythur a dysgeidiaeth

52. Fel Comisiwn, rydym wedi trafod yn fanwl y weledigaeth y mae'r Ysgrythur a'r ffydd Gristnogol yn ei chyflwyno ar gyfer dynoliaeth, a pherthynas Duw â hwy. Cafwyd sawl trafodaeth o fewn yr eglwysi ynglŷn â rhywioldeb, a bu'r dadlau'n ddwys. Wrth adolygu llyfr Eugene Roger, Sexuality and the Christian Body, dywed Rowan Williams mai un o'r pethau y mae dybryd angen i'r eglwys ei wneud yn ein hoes yw deall arwyddocâd eglwysig dadl. O'i roi'n gliriach, mae angen i ni gofio nad yw gwrthdaro yn yr eglwys o reidrwydd yn fater o wrthryfela yn erbyn, ac amddiffyn safbwynt sefydlog, ond ffordd gan Dduw o ddarganfod beth yn union a gredwn. Dyna sut y fformiwleiddiwyd y credoau clasurol.[29] Rhaid bod Rowan Williams wedi myfyrio ar y geiriau hynny'n aml dros y degawd wedi iddo'u hysgrifennu yn 2003, gyda pheth synnwyr o eironi.

53. Felly, a ddylem ailgynnau'r ddadl eto, gan osod un darn o'r Beibl yn erbyn darn arall, ac archwilio beth y mae bod yn ddynol yn ei olygu (yn dechnegol, ar lun a delw Duw), pa un a yw priodas yn sagrafen fel y mae bedydd a'r cymun yn sagrafennau, a beth yw ein diben (neu beth y mae'n ei olygu i ffynnu) mewn gwirionedd? Rydym wedi gwneud hyn oll yn y Comisiwn, ac wedi gosod papurau hir a manwl ar wefan yr Eglwys yng Nghymru, wedi'u rhestru yn ôl awdur er hwylustod i'r sawl sy'n dymuno archwilio'r mater yn fanwl. Safbwyntiau'r awduron eu hunain sydd yn y papurau hyn, er bod pob aelod o'r Comisiwn wedi'u gweld ac wedi cynnig sylwadau arnynt.[30] Ysgrifennwyd llawer ar y pwnc dros y tri degawd diwethaf. Nid ydym wedi cynnwys y papurau hyn, yn rhannol am fod yr adroddiad yn ddigon hir yn barod. Fodd bynnag, mae ein prif reswm dros beidio â chynnwys y deunydd

[29] Rowan Williams, 2003. 'Article review, Eugene Rogers's *Sexuality and the Christian Body'*, *Scottish Journal of Theology*, 56(1), tudalennau 82-88.

[30] Mae'r papurau a restrir yn y cyflwyniad i'r adroddiad

yn yr adroddiad yn wahanol. Gwelwn ein hunain fel Comisiwn sy'n ymdrin â'r modd, fel y dywed Williams, y mae rhywioldeb yn ymwneud â natur pobl Dduw, a'u sancteiddrwydd corfforedig, yr eglwys fel cymuned o bobl wedi'u galw i rannu ym mywyd Trindodaidd Duw drwy rodd o ras, gan geisio mynegi patrymau disgybledig o addoliad a bywyd sanctaidd o fewn y gymuned honno. [31] Aiff Williams rhagddo i ddweud nad yw'r ymchwil i adnabod sancteiddrwydd wedi'i gyfyngu i gwestiynu'r fformiwlâu a ddefnyddiwyd.

54. Mae'n hawdd dyfynnu testunau ysgrythurol y naill ffordd neu'r llall, neu ddadlau dros y greadigaeth yn erbyn y cwymp, a dyna'n union sut y mae'n datblygu, yn fater blinderus o gwestiynu'r fformiwlâu a ddefnyddiwyd. Nid dyna rydym ni wedi'i wneud. Yng ngweddill yr adroddiad hwn, ymrown i'r ymchwil i adnabod y sancteiddrwydd y soniodd Williams amdano. I rai, golyga hynny na fydd newid o gwbl yn nysgeidiaeth yr eglwys. I eraill, mae'n golygu newid, naill ai er mwyn caniatáu i bartneriaeth gael ei bendithio, neu i ganiatáu priodasau o'r un rhyw. Mae bob amser yn ymwneud â sut y gall yr Eglwys yng Nghymru fod yn bobl sanctaidd. Sut y mae'r awydd am Dduw yn fframio, yn goleuo ac yn trawsnewid ein hawydd rhywiol a sut rydym yn eglwys fugeiliol i rai sydd mor aml yn teimlo ein bod yn eu gwrthod? Dyna lle mae gweddill yr adroddiad hwn yn arwain, tuag at fod yn gorff sy'n sanctaidd ac yn anfeidraidd groesawgar, wrth i ni ddatblygu i fod yr hyn ydym, sef corff Crist i fyd y mae Duw yn ei garu ac yn ei achub. [32] Mae'r adroddiad hwn yn ymwneud â'r gyfraith a gras, a chariad, ac â chariad at ein gilydd. Ein gobaith yw bod yr opsiynau canlynol yn rhan o'r ymrafael i adnabod sancteiddrwydd.

## Cyflwyniad i'r tri opsiwn

55. Symudwn yn awr at galon yr adroddiad. Cyflwynwn dri opsiwn i'r Eglwys yng Nghymru eu hystyried, sef: 'priodas fel uniad rhwng dyn a menyw yn unig' o baragraffau 57-74; 'bendithio partneriaethau o'r un rhyw' o baragraffau 75 i 99; ac i gloi, 'priodas fel uniad rhwng dau gyfartal sy'n caru'i gilydd heb ystyried gwahaniaeth rhywiol' o baragraffau 100 i 134. Gorffennwn gyda chasgliad o dan y pennawd 'rhai egwyddorion ar gyfer ymateb bugeiliol'. Nid pedwerydd opsiwn yw hwn, ond yn hytrach, yr egwyddorion sy'n sail i'r adroddiad cyfan. Nid yw'r un o'r tri opsiwn o reidrwydd yn un y byddai pob aelod o'r Comisiwn yn cytuno ag ef. Maent yma er mwyn i aelodau'r Corff Llywodraethol eu trafod. Mewn geiriau eraill, posibiliadau i'r Eglwys yng Nghymru eu trafod ydynt, nid argymhellion. Fel Comisiwn, rydym yn cytuno i'w cyflwyno fel posibiliadau i'r Eglwys yng Nghymru eu hystyried.

[31] Ibid t.83
[32] Ibid t.83

### Opsiwn Un: Priodas fel uniad rhwng Dyn a Menyw yn unig

56. Mae Duw yn caru pobl sy'n teimlo atyniad at bobl o'r un rhyw â hwy ac mae lle iddynt yn yr Eglwys. Y cwestiwn y dadleuir yn ei gylch, fodd bynnag, yw hwn: a all eglwys Gristnogol yn gywir ac yn ffyddlon fendithio partneriaeth rhwng pobl o'r un rhyw? Nid yw llawer o Anglicaniaid (mwyafrif helaeth drwy'r byd fwy na thebyg) wedi cael eu hargyhoeddi gan y dadleuon o blaid bendith o'r fath.

57. Yn rhannol, y rheswm pam nad yw llawer o Anglicaniaid yn cefnogi bendithio perthynas rhwng pobl o'r un rhyw yw nad yw'r dadleuon o blaid i'w gweld yn argyhoeddi. Un ddadl bwysig o blaid yw y gall perthynas rhwng pobl o'r un rhyw arddangos llawer o'r un rhinweddau â pherthynas rhwng dyn a menyw, er enghraifft sefydlogrwydd a ffyddlondeb, felly mae partneriaeth rhwng pobl o'r un rhyw yn cyfateb yn foesol i briodas rhwng dyn a menyw. Am mai ysgol rhinwedd yw priodas, yna honna'r ddadl hon y gall dau ddyn neu dwy fenyw arddangos rhinweddau a thyfu ynddynt yn union yn yr un ffordd ag y gall dyn a menyw mewn priodas, ac o ganlyniad, dylid cydnabod a dathlu partneriaeth rhwng pobl o'r un rhyw fel priodasau, neu o leiaf, gael eu derbyn a'u bendithio gan yr eglwys.

58. Ond nid yw'r casgliad hwn yn rhesymegol. Mae'n gyfystyr â dweud:
    a. Mae pob priodas dda yn cynhyrchu rhinweddau moesol yn y ddau briod,
    b. Gall partneriaeth rhwng pobl o'r un rhyw gynhyrchu rhinweddau moesol yn y partneriaid,
    c. Felly gall partneriaeth rhwng pobl o'r un rhyw fod yn briodasau da

59. Nid yw casgliad (c) yn dilyn o'r rhagosodiadau (a a b). Fel dadl, ni fyddai hyn ond yn gweithio pe bai pob math o berthynas sy'n cynhyrchu rhinweddau moesol (Pwynt b) yn sail i briodas gywir. Ond mae'n amlwg nad yw hynny'n wir. Gall partneriaeth fusnes, er enghraifft, gynhyrchu rhinweddau fel teyrngarwch, gonestrwydd ac ymddiriedaeth – gall partneriaeth fusnes fod yn barhaol, yn ffyddlon ac yn sefydlog hyd yn oed – ond nid yw hynny'n gwneud partneriaeth fusnes yn sail i briodas gywir. Nid ei phriodweddau goddrychol, na'i gallu i fod yn ysgol rhinwedd sy'n gwneud priodas yn wahanol i fathau eraill o berthynas (fel cyfeillgarwch, perthynas deuluol, partneriaeth ac ati). Gall sawl math o berthynas ein helpu i ddatblygu mewn rhinwedd. Yr hyn sy'n gwneud priodas yn wahanol ac yn unigryw yw ei bod yn dod â dyn a menyw at ei gilydd mewn uniad sydd â photensial i fod yn genhedlol, sy'n cael ei gydnabod yn gyhoeddus, ac sydd am oes ac yn llwyr-gyfyngedig.

60. Felly, beth am y ddadl sy'n cael ei lleisio'n aml fod barn gymdeithasol wedi newid yn radical dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf a bod yn rhaid i'r eglwys newid i gyd-fynd â hi? Rhaid ateb bod rhagdybiaethau a barn y gymdeithas o'n cwmpas yn herio ein cenhadaeth, ond nid dyna sy'n pennu ein credoau. Gallai'n sicr fod yn wir fod pobl yng Ngorllewin Ewrop, Gogledd

America, Seland Newydd ac Awstralia bellach yn derbyn perthynas rhwng pobl o'r un rhyw i raddau helaeth heb weld problem. Wrth gwrs, mae hyn yn gadael llawer o bobl yn Affrica a mannau eraill sy'n gweld pethau'n wahanol, ond yn ôl y ddadl hon sy'n cael ei lleisio'n aml, gellir disgwyl iddynt ddal i fyny â'r gweddill ohonom yn y pen draw. Ond hyd yn oed os credwn, am ba reswm bynnag, mai dim ond pobl y Gorllewin sy'n cyfrif yn y pôl piniwn byd-eang hwn, beth fyddai'r sylwadau hyn yn ei olygu i'r eglwys Gristnogol? A yw'n golygu, er enghraifft, fod yn rhaid i Gristnogion addasu eu credoau fel nad ydynt i'w gweld yn rhyfedd neu allan ohoni? Mae nifer y bobl yng ngwledydd y Gorllewin nad ydynt yn credu mewn Duw hefyd ar gynnydd: ond mae'n debyg na fyddem, o ganlyniad i hynny, yn cefnu ar ein cred yn Nuw er mwyn cydymffurfio. Ac yn yr un modd, pe baem yn derbyn y ddadl hon ac yn addasu ein credoau i gyd-fynd â'r gymdeithas o'n cwmpas, ni fyddai angen Corff Llywodraethol arnom i drafod ein dysgeidiaeth a'n hymarfer, oherwydd byddai grŵp ffocws neu bôl piniwn yn dweud wrthym pa gredoau y dylem eu cadw neu eu gwrthod. Ond mewn gwirionedd, fel y mae Datganiad Barmen yn 1934 yn ei roi, ni all yr eglwys, ac ni ddylai, fyth gydnabod digwyddiadau a phwerau, ffigurau a gwirioneddau eraill yn ffynhonnell i'w phroclamasiwn ar ddatguddiad Duw ar wahân i Un Gair Duw.

61. Mae'r cyfeiriad at Air Duw yn ein hatgoffa fod llawer o Anglicaniaid yn parhau heb eu hargyhoeddi am eu bod yn gweld yn yr ysgrythur mai dim ond i ddyn a menyw y mae nodweddion unigryw priodas yn berthnasol. Rhestrir y nodweddion hyn yn y naratif ar y creu yn Genesis 1 a 2, lle gwelwn y sylfeini a'r strwythur sy'n gwahaniaethu rhwng priodas a phob ffurf arall ar berthynas. Cadarnhawyd y sylfeini hyn, a ddatblygir wedyn drwy'r ysgrythur, yn gyson mewn athrawiaeth Gristnogol byth ers hynny. Hyd y dydd hwn, ni fu amheuaeth yn eu cylch, nac amwysedd ac nid oeddynt yn agored i'w dehongli. Gallwn nodi saith o'r strwythurau sylfaenol hyn:

62. (1) Y gwahaniaeth rhwng gwryw a benyw. Mae Genesis 1 a Genesis 2 yn tanlinellu'r gwahaniaeth hanfodol rhwng gwryw a benyw. Yn Genesis 1, mae'r gwahaniaeth rhwng y rhywiau yn amlwg ar y cychwyn. Mae'n realaeth ddyfnach na gwahaniaethau ethnig, gwahaniaethau rhwng diwylliannau neu amrywiaeth o ran cyflogaeth a galwedigaeth. Mae'r holl wahaniaethau hynny'n eilradd ac yn datblygu yn yr hanes a fydd yn dilyn. Ond mae'r gwahaniaeth mewn bodau dynol rhwng gwryw a benyw yn sylfaenol. Yn Genesis 2, disgrifir y gwahaniaeth rhwng y rhywiau mewn modd sy'n esbonio cywirdeb ac addasrwydd dyn a menyw yn dod at ei gilydd fel dwy ran o'r hyn a oedd yn wreiddiol yn un ddynoliaeth. Ond yn y ddwy bennod, sylwn nad gwahaniaeth dibwys yw bod yn wryw a bod yn fenyw. Mae'n sylfaenol.

63. Ar wryw a benyw y rhoddodd Duw ei fendith yn Genesis 1.28. O'u huniad y dôi ffrwythlondeb a'r stiwardiaeth gywir dros y greadigaeth y mae Genesis 1. 28-30 yn sôn amdano. Felly, yr uniad rhwng y ddau ryw yw'r uniad y gall Duw

ei fendithio. Deillia ffyniant dynol ffrwythlon o'r uniad hwn. Mae testunau yn Lefiticus (Lef 18. 22 a 20.13) ac yn llythyrau Paul (Rhuf 1. 18-27, 1 Cor 6. 9-11 a 1 Tim 1. 8-11) yn gwahardd gweithgaredd rhywiol dynion â dynion neu fenywod â menywod, ond nid yw'r darnau hyn yn ychwanegu dim at Genesis 1 a 2. Dim ond egluro goblygiadau Genesis a wnânt: nid yn unig mai uniad corfforol y ddau ryw y gall Duw ei fendithio, ond nid yw Duw'n bendithio'r un rhyw yn dod at ei gilydd yn gorfforol â'i hun.

64. (2) Statws oedolyn. Mae Genesis 2.24 yn ei gwneud hi'n eglur ei fod yn siarad am uniad dau oedolyn, dyn a menyw sy'n barod i ysgwyddo'r cyfrifoldeb o ffurfio teulu newydd gyda'i gilydd. Mae diwylliannau'n amrywio o ran eu syniadau ynglŷn â phryd y bydd pobl yn dod yn oedolion ac oedran cydsynio, ond dim ond rhwng oedolion y gall priodas ddigwydd, ym mha bynnag fodd y diffinnir oedolyn. Yr uniad y gall Duw ei fendithio yw uniad dau oedolyn, un o bob rhyw.

65. (3) Monogami. Mae Genesis 2.24 hefyd yn dweud "Oherwydd hyn yr ymedy gŵr â'i dad ac â'i fam, ac y glŷn wrth ei wraig: a hwy a fyddant yn un cnawd." Mae'r un cyfeiriad at ddyn a'i wraig yn bendant yn awgrymu monogami, cwlwm priodas llwyr-gyfyngol rhwng dau unigolyn. Mae monogami eisoes yn cael ei awgrymu yn y berthynas ddeuol rhwng dyn a menyw. Ceid aelwydydd amlwreiciol yn yr Hen Destament, fel un Abraham, Dafydd a Solomon. Ond nid yw'r patriarchiaid (Abraham, Isaac a Jacob) a ragflaenai'r Gyfraith bob amser yn batrymau o rinwedd, ac mae'r Hen Destament yn ei gwneud hi'n amlwg fod priodasau lluosog Dafydd a Solomon wedi achosi gwendidau yn ystod eu teyrnasiad. Yn bendant, erbyn cyfnod y Testament Newydd, ymddengys mai priodasau monogamaidd a geid bob amser, sef y dewis a ffefrir yn yr ysgrythur. Mae'r Iesu'n rhoi sylw amlwg i fonogami, a chynhwysodd y gair 'dau' yn ei gyfeiriad at destun Genesis 2.24, gan ychwanegu ei esboniad ei hun 'fel nad ydynt mwy ddau, ond un cnawd' (Marc 10.8).

66. (4) Pellter genynnol. Mae Genesis 2.14 yn datgan bod dyn yn gadael ei dad a'i fam er mwyn cael ei uno â'i wraig. Rhaid i'r uniad y mae Duw yn ei fendithio gynnwys dau ryw gwahanol (dyn a menyw) a rhaid iddo gynnwys pellter genynnol (priodas y tu allan i'r teulu uniongyrchol).

67. (5) Am oes a llwyr-gyfyngedig. Mae natur sefydlog a llwyr-gyfyngedig perthynas yn cael eu hawgrymu'n gryf yn Genesis 2.24: 'y glŷn' y dyn wrth ei wraig. Mae sefydlogrwydd yn agwedd ar briodas y mae gweddill yr ysgrythur yn ei gymryd yn ganiataol. Bwriedir i briodas fod am oes. Yr un mor bwysig yw natur lwyr-gyfyngedig priodas. Gwnaeth yr Iesu hi'n gwbl eglur nad oes dwy safon ar gyfer ei bobl. Mae ar y wraig yr un ffyddlondeb llwyr-gyfyngedig i'w gŵr ag sydd ar y gŵr i'w wraig (Math 5. 27-8). Hyd yn oed os yw'r bwriad yn anodd ei wireddu yn ymarferol, ni all priodas fod yn briodas go iawn os nad

yw'r dyn a'r fenyw sy'n mynd iddi yn gwneud hynny gyda'r bwriad iddi bara am oes a bod yn llwyr-gyfyngedig.

68. (6) Cydnabyddiaeth gymdeithasol. Pan fo Genesis 2 yn sôn am adael ei dad a'i fam a dod yn un cnawd, mae'n eglur bod y gŵr a'r wraig newydd yn sefydlu cartref gyda'i gilydd. Yn oes yr Hen Destament, mae'n debyg y byddai hyn yn golygu symud i annedd yn yr amgaefa o anheddau cysylltiedig o aelodau teuluol a ffurfiai 'dŷ'r tad'. Mae'r ffordd o adael tad a mam yn wahanol iawn heddiw, ond mae'r egwyddor yr un fath. Nid mater preifat i ddau unigolyn wneud fel y gwelant yn addas yn unig ydyw. Mae creu uniad rhywiol newydd o ddiddordeb i'r teuluoedd a unir ganddo, ac i gymdeithas y mae ei sefydlogrwydd a'i gallu i oroesi wedi'i adeiladu ar allu'r teulu i oroesi.

69. (7) Potensial ar gyfer cenhedlu. Caiff y potensial i genhedlu ei nodi yn y gorchymyn i ffrwytho ac amlhau (Genesis 1.28). Â siarad yn gyffredinol, mae uniad dynion a menywod â photensial i genhedlu. Yn bendant, ni allwn wybod bob amser y bydd uniad penodol rhwng dyn a menyw yn cynhyrchu plant, fwy nag y gallwn warantu y bydd priodas benodol yn llwyddo fel perthynas. Ond ni olyga hynny fod partneriaeth rywiol (anghenhedlol) dynion â dynion neu fenywod â menywod yn ei hanfod yn debyg i briodas (anghenhedlol) pâr o'r ddau ryw y tu hwnt i oedran cenhedlu. Mae uniad anffrwythlon rhwng dyn a menyw yn gwbl wahanol i bartneriaeth rywiol dyn â dyn neu fenyw â menyw. Hyd yn oed os yw dyn a menyw, er enghraifft, y tu hwnt i oedran cenhedlu plant, o ran graddau'n unig, yn hytrach nag o ran ei fath, y bydd eu huniad yn wahanol i uniad unrhyw bâr gwyrw-benyw. Pan ddaw dyn a menyw at ei gilydd yn rhywiol, mae eu cyrff yn ffurfio cyfanwaith y mae Genesis yn ei alw'n 'un cnawd', wedi'i gydgysylltu tuag at y nod biolegol cyffredin o greu bywyd newydd. Mae hyn yn creu gwahaniaeth rhwng pâr o'r ddau ryw sy'n anffrwythlon ag unrhyw ddau berson o'r un rhyw.

70. "Bodily coordination is possible even when its end is not realized; so for a couple [of opposite sexes], bodily union occurs in coitus even when conception does not. It is the coordination toward a single end that makes the union; achieving the end would deepen the union, but is not necessary it."[33]

71. Mae trafod partneriaethau o'r un rhyw yn aml yn bychanu arwyddocâd potensial cenhedlol priodas. Ond ni ddylem leihau arwyddocâd y potensial hwn. Nid oes gan unrhyw berthynas arall heblaw'r un rhwng dyn a menyw botensial i greu bywyd newydd, ac nid oes yr un berthynas arall yn sefyll o dan fendith Duw fel y'i cyhoeddir yn Genesis 1.28. Mae cariad dyn at ddyn neu fenyw at fenyw, o'i fynegi'n gorfforol, yn fath o gyfeillgarwch rhywiol. Ond yn absenoldeb potensial i greu bywyd newydd, a heb fynegi cydgysylltiad gwryw a benyw tuag at uniad cenhedlol, nid yw'n briodas.

[33] Sherif Girgis, Ryan T Anderson a Robert P. George 2012 *What is Marriage? Man and Woman: a Defence* Efrog Newydd/Llundain: Encounter Books: t26

72. Os yw unrhyw un o'r elfennau hyn yn absennol o berthynas rywiol, nid yw'n briodas. Rhaid i'r saith fod ar waith i berthynas fod yn sail i briodas y gall Duw ei bendithio. Er enghraifft, felly, gallai perthynas losgachol fodloni pob maen prawf heblaw'r un am bellter genynnol. Ond byddai'n dal yn ddiffygiol yn foesol. Ni all perthynas rhwng dau o'r un rhyw fynegi uniad deuol gwryw a benyw felly nid yw'n bodloni'r maen prawf cyntaf, yr elfen fwyaf sylfaenol am fod y chwe elfen arall yn deillio ohoni, neu'n datblygu ei harwyddocâd neu ei goblygiadau. Ac yn wir, ni all perthynas rhwng dau o'r un rhyw gyflawni'r seithfed elfen, yr elfen arwyddocaol iawn o ffurfio'r uniad â'r potensial cenhedlol sy'n ganolog i briodas.

73. O ystyried bod Duw yn caru pobl sy'n profi atyniad at bobl o'r un rhyw, a bod lle iddynt yn ei eglwys lawn cymaint ag i unrhyw un arall, sut y gall hyn weithio'n ymarferol? I'r person sy'n teimlo atyniad at bobl o'r un rhyw, fel i bawb, mae cariad Duw yn gariad trawsnewidiol, a dylai perthyn i'w eglwys fod yn brofiad trawsnewidiol. Bydd pawb sy'n dod at Grist yn gweld fod Duw yn ein caru fel yr ydym, ond yn ein caru ormod i'n gadael ni fel yr ydym.

74. Roedd eglwysi yng nghyfnod y Testament Newydd yn cynnwys pobl a fu'n ymwneud ag amryw o weithgareddau a oedd yn anghyson â'u perthynas newydd â Christ. Mae Sant Paul (1 Corinthiaid) yn cyfeirio at bechodau ariannol – dwyn a thwyllo – a oedd yn peryglu etifeddiaeth yr unigolyn o deyrnas Dduw. Ceid pechodau rhywiol hefyd – godineb a gweithgaredd rhywiol rhwng pobl o'r un rhyw – y mae Paul yn eu gosod yn yr un category (1 Corinthiaid 6:9). "Eithr chwi a olchwyd, eithr chwi a sancteiddiwyd, eithr chwi a gyfiawnhawyd, yn enw yr Arglwydd Iesu, a thrwy Ysbryd ein Duw ni." (1 Corinthiaid 6.11). Mae'r newydd da i bobl sy'n teimlo atyniad at bobl o'r un rhyw yr un newydd da a ddaw i bawb: fod angen i bawb gael ei olchi mewn sancteiddrwydd; y gall pawb gael cyfiawnhad yn enw'r Arglwydd Iesu Grist, ac y caiff pob crediniwr a gaiff gyfiawnhad ei sancteiddio, ei wneud yn debycach i'r Iesu, drwy gael ei rymuso gan yr Ysbryd Glân, er y bydd y broses honno'n un anodd. Y persbectif hwn o'r efengyl sy'n rhoi cyd-destun diwinyddol i'r Eglwys ar gyfer arfer gofal bugeiliol dros bobl sy'n teimlo atyniad at rywun arall o'r un rhyw â hwy eu hunain.

75. Yn ei ddatganiad anghydffurfiol i Adroddiad Pilling yr Eglwys yn Lloegr (2013), cafwyd darlun da o'r eglwys a fyddai'n arfer gofal bugeiliol o'r fath gan Esgob Penbedw: (Cyfeirier at Adroddiad Pilling §488)

(c) Mae'n cymeradwyo priodas fel sefydliad a grëwyd drwy gariad Duw lle mae un dyn ac un fenyw yn cychwyn ar berthynas lwyr-gyfyngedig am oes, gan gredu mai dyma'r unig ffurf ar bartneriaeth a gymeradwyir gan Dduw ar gyfer cynnal perthynas rywiol ac felly yr unig ffurf ar bartneriaeth rywiol sy'n mynegi cariad cywir at Dduw.

(d) Mae’n annog eglwysi i fod yn fannau diogel lle gall pawb, yn cynnwys pobl sy’n teimlo atyniad at rai o’r un rhyw neu at y ddau ryw, rannu ac archwilio ei stori â chydgredinwyr er mwyn annog a chefnogi ei gilydd wrth i ni helpu ein gilydd i dyfu gyda’n gilydd i aeddfedrwydd yng Nghrist.

(e) Mae’n cymeradwyo ac yn annog pawb sy’n profi atyniad at rai o’r un rhyw neu’r ddau ryw ac sydd wedi ymrwymo eu hunain i ddiweirdeb drwy ymatal rhag arfer rhywiol homoerotig, gan groesawu’n arweinwyr y rheiny ohonynt y mae Duw wedi’u galw i’w hordeinio.

(f) Mae’n cefnogi pawb a aiff ati’n gyfrifol i geisio helpu Cristnogion sy’n profi atyniadau rhywiol sy’n gwrthdaro â’u hymrwymiad i fyw’n unol â dysgeidiaeth Feiblaidd, gan annog yr Eglwys i gynnig cyngor a chymorth bugeiliol i fyw bywyd diwair.

76. Mae rhai o’n ffrindiau, aelodau teuluol, cymdogion a’n cydweithwyr ymhlith y bobl hynny sy’n profi atyniad at bobl o’r un rhyw. Mae cryn apêl yn y ddadl y dylem addasu barn yr Eglwys i sicrhau eu hapusrwydd, Mae cymdeithas orllewinol yn fwyfwy gelyniaethus tuag at y rhai hynny sy’n cwestiynu daioni neu gywirdeb perthynas rhwng pobl o’r un rhyw: mae’n creu cymhelliad pwerus i sicrhau ein henw da drwy gydymffurfio â barn y mwyafrif o’n cyfoeswyr. Ai dim ond mater moesol arall y gall Cristnogion gytuno i anghytuno yn ei gylch yw priodasau o’r un rhyw? A yw’r ddadl hon yn ein harwain i newid ein dysgeidiaeth a’n disgyblaeth er mwyn sicrhau cyflawniad personol ein cymdogion ac osgoi anghymeradwyaeth gymdeithasol tuag atom ein hunain? Mae’r ysgrythur a dysgeidiaeth gyson yr Eglwys dros ugain canrif yn cymell llawer i edrych ar y ddadl yn nhermau dewis rhwng ufuddhau i Dduw neu gydymffurfio â’r byd, maen prawf i’r bywyd Cristnogol dilys; a “Rhaid yw ufuddhau i Dduw yn fwy nag i ddynion” (Actau 5.29). A fyddai ufudd-dod mor radical yn niweidio ein tystiolaeth i’n cymdeithas? Mae Eglwys â neges amhoblogaidd yn bendant yn wynebu her: ond ni fydd gan Eglwys sy’n osgoi her ufudd-dod neges sy’n newid bywydau o gwbl. Mae Erthygl 20 o’r 39 Erthygl yn cyfleu’r mater yn gryno: nid yw’n gyfreithiol i’r Eglwys ordeinio unrhyw beth sy’n gwrthwynebu Gair ysgrifenedig Duw. Eto, dyna’n union y byddem yn ei wneud pe bai’r Eglwys yn mynd ati i fendithio priodasau o’r un rhyw, neu hyd yn oed bartneriaethau o natur debyg wedi’u diffinio’n fwy eang.

77. Efallai y byddai rhai’n awgrymu fod man canol i’w gael na fyddai’n newid ein dysgeidiaeth na’n disgyblaeth. Mae Adroddiad Pilling yr Eglwys yn Lloegr yn ceisio llwybr drwy’r canol, gan awgrymu opsiwn i glerigion, gyda chymeradwyaeth eu cyngor eglwys y plwyf, sef nodi ffurfio perthynas rhwng dau o’r un rhyw mewn gwasanaeth cyhoeddus (Argymhelliad 16) heb gynhyrchu unrhyw ddefodau awdurdodedig. Ond byddai cymhwysiad bugeiliol o’r fath yn golygu ordeinio rhywbeth sy’n groes i air ysgrifenedig Duw, ac ni all hynny fod yn iawn. Nid yw cynnig anufudd-dod fel opsiwn yn ei droi’n ufudd-

dod. Ni all Eglwys ffyddlon, Eglwys y byddai'r apostolion yn ei hadnabod, roi bendith sanctaidd ar yr hyn y mae Duw wedi dweud nad yw'n sanctaidd.

**Opsiwn: Bendithio Partneriaethau o'r un Rhyw**

78. Caiff y ddadl dros fendithio yn hytrach na phriodi ei chyflwyno mewn tri cham. Yn gyntaf, mae'r Cymundeb Anglicanaidd ym mhedwar ban byd yn wynebu'r realiti o Anglicaniaid ffyddlon yn ffurfio partneriaethau o'r un rhyw. Mae hyn yn wir ym Mhrydain, Gogledd America, ac yn Awstralia a Seland Newydd erbyn hyn (2013). Mae'r sefyllfa'n wahanol yn Affrica, sydd â diwylliant gwahanol iawn, nid yn unig o ran rhywioldeb ond o ran agwedd at rywedd a pherthynas yn gyffredinol. Yno, nid yw realiti bugeiliol partneriaethau o'r un rhyw wedi dod i'r amlwg, ac nid yw'n debygol o wneud hynny am sawl degawd arall, ac eithrio yn Ne Affrica o bosibl.[34] Dylai'r Eglwys yng Nghymru ddysgu o'r chwilio cynyddol hwn am yr ymateb diwinyddol a bugeiliol priodol. Yn ddiwinyddol, gwelir hon fel proses o dderbyn dealltwriaeth newydd gan yr Eglwys o fywyd Cristnogol.

79. Yn ail, mae llawer o ddiwinyddion yn credu mai rhywbeth rhwng dyn a menyw yn unig yw priodas. Mae'r farn hon yn cael ei mynegi o safbwynt yr ysgrythurau, traddodiad a diwinyddiaeth systematig. Serch hynny, rydym angen ymateb litwrgaidd a bugeiliol priodol i bartneriaethau o'r un rhyw ffyddlon, a bendith yw hynny. Mae rhai diwinyddion ac athronwyr bellach yn herio'r cysylltiad agos rhwng priodas a gwahaniaeth rhywiol. Gellir gweld rhai o'r dadleuon yn y papurau ar wefan yr Eglwys yng Nghymru. Rydym yn bwrw golwg ar y mater yn gryno yma.

80. Yn drydydd, bydd bendith litwrgaidd ar bartneriaethau o'r un rhyw yn ddatblygiad newydd yn hanes litwrgi Cristnogol. Dylid cydnabod hynny fel rhan o'r her o fyw o dan arweiniad yr Ysbryd Glân, ond mae'n bwysig bod yn glir am yr hyn a gredwn.

81. Symudiad cynyddol o fewn y Cymundeb Anglicanaidd. Mae'r ddadl dros fendithio partneriaethau o'r un rhyw yn glir a chyson. Mae'n dechrau gyda realiti bugeiliol yr aelodau hynny o'r Eglwys sy'n syrthio mewn cariad ac yn ffurfio partneriaeth. Mae'n bwysig iddynt hwy ac i gymdeithas fod perthynas o'r fath yn cael ei chydnabod yn gyhoeddus, ei chadarnhau ac yn cyfrannu at sefydlogrwydd cymdeithas. Ers 2004, mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi darparu partneriaethau sifil i gyplau o'r un rhyw ac mae llawer yn eglwysi Prydain wedi dymuno bendithio ymrwymiad o'r fath. Caiff y realiti hwn ei ategu ar draws sawl talaith o'r Cymundeb Anglicanaidd. Gellir crynhoi'r stori, ac mae angen cydnabod y stori yn nhalaith yr Eglwys yng Nghymru.

[34] Mae'r Archesgob Desmond Tutu wedi ymgyrchu dros hawliau pobl hoyw ers blynyddoedd lawer. Yn 2005 dywedodd:" Sexual orientation… is a given. ...We treat them [gays and lesbians] as pariahs and push them outside our communities. We make them doubt that they too are children of God – and this must be nearly the ultimate blasphemy. We blame them for what they are."

82. Yng Nghanada, cafwyd symudiad erbyn 2010 oedd yn galw ar lawer o esgobaethau i fendithio partneriaethau o'r fath. Er bod hyn wedi achosi rhaniad enfawr yn y Cymundeb Anglicanaidd, ychydig o ddadlau a gafwyd yn Eglwys Anglicanaidd Canada ar ôl y sioc cychwynnol; mae bendithio o'r fath nawr yn elfen arferol o waith yr Eglwys Anglicanaidd yno. Mae'n wir fod yna ddadlau ar y cychwyn, ond roedd yna farn ranedig hefyd am blwyfi aml-hil yn y 1960au (mae'r ffaith bod y sefyllfa wedi bod yn wahanol yn destun dychryn erbyn hyn) ac roedd yna farn ranedig hefyd ar y cychwyn am ethol menywod yn esgobion. Pan ddaeth menywod yn esgobion dros ddegawd yn ôl, gwrthododd rhai Anglicaniaid dderbyn hyn. Mae menywod yn esgobion a bendithio cyplau o'r un rhyw nawr yn rhan arferol o waith yr Eglwys Anglicanaidd yng Nghanada, ac eithrio mewn lleiafrif bach o blwyfi.[35]

83. Digon tebyg yw'r stori yn yr Unol Daleithiau, er bod rhai eglwysi wedi torri'n rhydd o'r Eglwys Esgobol oherwydd ei pholisi. Serch hynny, mae llawer o esgobaethau wedi derbyn bendithio partneriaethau o'r un rhyw, ac mae dau esgob wedi bod mewn perthynas o'r fath. Ym mis Gorffennaf 2012, cafodd litwrgi ar draws yr Eglwys Esgobol ei awdurdodi'n ffurfiol gan y Confensiwn Cyffredinol. Mae'r adroddiad gan yr Eglwys Esgobol, 'I will bless you and you will be a blessing' yn rhoi cyfiawnhad diwinyddol i hyn, ac yn darparu litwrgi hefyd.[36]

84. Mae yna newid ar droed yn Awstralia a Seland Newydd hefyd. Yn Awstralia, pleidleisiodd esgobaeth Perth dros gydnabod perthynas o'r un rhyw ym mis Hydref 2013, er bod yr Archesgob wedi pleidleisio yn erbyn. Yn 2013 hefyd, sefydlodd Eglwys Anglicanaidd Seland Newydd gomisiwn athrawiaethol (Comisiwn Ma Whea) i edrych ar y sail resymegol ddiwinyddol dros roi bendith litwrgaidd i bobl sydd mewn perthynas o'r un rhyw ffyddlon a pharhaol. Bydd yn cyflwyno adroddiad i'r Synod Cyffredinol yn 2014.

85. Ym Mhrydain, mae Eglwys Esgobol yr Alban ac Eglwys Loegr wedi bod yn trafod y mater yn helaeth. Ym mis Tachwedd 2013, dywedodd Coleg Esgobion Eglwys Esgobol yr Alban:

> "that it was the practice of the individual Bishops at that time neither to give official sanction to blessings of civil partnerships, nor to attend them personally. The Church does not give official sanction to informal blessings but each Bishop would nevertheless expect to be consulted by clergy prior to the carrying out of any informal blessing of a civil partnership in his diocese. The College is of the view that a decision as to

---

35 *Report of the Primate's Theological Commission of the Anglican Church of Canada on the Blessing of Same-sex Unions (the St.Michael's report )* 2005 http://www.anglican.ca/primate/files/2010/11/StMichaelReport.pdf

36 https://www.ctepiscopal.org/images/customer-files/I_Will_Bless_You_Corrected.pdf Standing Commission on Liturgy and Music 77th General Convention of The Episcopal Church, Gorffennaf 2012

> whether or not to attend such an informal blessing should be a personal decision of the individual Bishop in question."

Mae Profost Eglwys Gadeiriol Anglicanaidd Glasgow yn cynnal bendithion o'r fath. Mae Coleg yr Esgobion wedi datgan y byddant yn ystyried rhywioldeb eleni.

86. O fewn Eglwys Loegr, roedd llythyr a anfonwyd i The Times yn 2010, wedi'i lofnodi gan nifer o esgobion, deoniaid a chlerigion eraill a oedd wedi ymddeol ac yn dal i wasanaethu, yn dadlau o blaid priodas o'r un rhyw mewn cyfraith sifil, ac o blaid ymateb priodol gan Eglwys Loegr. Mewn dadl ar briodas cyplau o'r un rhyw yn Nhŷ'r Arglwyddi ym mis Mehefin 2013 dywedodd Archesgob Efrog fod mater bendithio perthynas o'r un rhyw yn un difrifol iawn i Eglwys Loegr, gan ddweud y gallai fendithio llong neu goeden, ond na allai fendithio perthynas o'r fath. Ym mis Tachwedd 2013, roedd adroddiad ar rywioldeb i Dŷ Esgobion Eglwys Loegr (adroddiad Pilling) yn osgoi'r term bendith. Fodd bynnag, awgrymir bod amgylchiadau lle dylai offeiriad, gyda chytundeb y Cyngor Plwyf Eglwysig (PCC) fod â'r hawl i nodi partneriaeth o'r un rhyw drwy wasanaeth cyhoeddus (paragraff 387)[37] . Mae gwasanaethau o'r fath wedi cael eu cynnal yn answyddogol yn Eglwys Loegr hefyd, fel mae'r llyfr Unheard Voices gan Jeffery Heskins[38] yn dangos yn glir.

87. Mae'r arolwg hwn yn dangos bod esgobion Anglicanaidd a synodau esgobaethol a thaleithiol yn ystyried y mater hwn mewn llawer o daleithiau Anglicanaidd ledled y byd lle mae partneriaethau o'r un rhyw yn cael eu derbyn gan gymdeithas. Maent yn symud ar gyflymder gwahanol, gan fod hwn yn newid mawr. Serch hynny, mae yna fomentwm, yn union fel y gwelwyd adeg ordeinio menywod yn y 1970-80au. Roedd llawer o wledydd wedi ordeinio menywod cyn i Gymru wneud hynny, a gellid adrodd yr un stori mewn perthynas â bendithio partneriaethau o'r un rhyw. Y ddadl ddiwinyddol yw ei bod hi'n broses o dderbyn gan y Cymundeb Anglicanaidd. Dymuniad i ymateb yn fugeiliol i Gristnogion sydd mewn partneriaethau o'r un rhyw sy'n gyrru hyn. Nid yw Cymru'n wahanol i lawer o daleithiau eraill yn y ffordd mae'n ystyried y mater. Mae angen i ni wrando ar ein brodyr a'n chwiorydd mewn taleithiau Anglicanaidd eraill. Yr hyn sy'n bwysig mewn unrhyw broses dderbyn yw sut yr ystyrir y mater, gyda chariad a pharch, gan gydnabod bob amser y rheidrwydd bugeiliol i weddïo gyda'r rhai sydd mewn partneriaeth o'r un rhyw. Dro ar ôl tro mewn taleithiau Anglicanaidd lle mae partneriaethau o'r un rhyw yn rhywbeth cyffredin (yn enwedig i bobl ifanc), mae yna ymdeimlad cynyddol bod rhaid ymateb yn fugeiliol, ac felly'n litwrgaidd, i'r mater hwn.

89. Diwinyddiaeth bendithio. Nid yw bendith yr un peth â phriodas. Fel y dywedodd llefarydd T.E.C., "We have authorized a blessing, and a blessing is

[37] *Report of the House of Bishops Working Group on human sexuality* GS Misc 1929, 2013 London: Church House Publishing, ( cited as the Pilling report)

[38] Jeffery Heskins 2001 *Unheard Voices* Llundain: Darton, Longman and Todd

different than a marriage. A blessing is a theological response to a monogamous, committed relationship." [39] Mae priodas dyn a menyw yn 'ystâd anrhydeddus, wedi ei hordeinio gan Dduw ei hun', felly wedi'i gwreiddio yn ein natur ni, ac yn arwyddo inni'r 'undeb dirgel sy rhwng Crist a'i Eglwys', felly yn y cyswllt hwnnw mae'n siarad â ni am natur achubiaeth .[40] Caiff ei ddeall fel arwydd o undod mewn gwahaniaeth y Drindod hefyd. Ar y sail hon mae priodas yn cael ei bendithio gan yr Eglwys: mae perthynas o'r fath yn arwydd o undeb ffyddlon Duw gyda'r rhai a grëwyd ganddo. Nid creadigaeth gymdeithasol yw priodas rhwng un dyn ac un fenyw, ac nid dyfais wleidyddol yn bendant, ond rhan annatod o'n natur creadurus. Ymhellach, mae traddodiad Cristnogol yn dyst i natur ddigyfnewid y realiti hwnnw: mae rhwng dyn a menyw.

90. Mae'r ysgrythurau'n sôn llawer am ddeall priodas fel arwydd o berthynas Duw â'i greadigaeth. Mae'r cyfamod rhwng Duw a phobl Israel yn cael ei symboleiddio yn yr undeb rhwng Hosea a Gomer (Hosea 1). Yng Nghaniad Solomon, mae'r enaid sy'n hiraethu am y dwyfol yn cael ei fynegi ar ffurf gwyryf sy'n chwilio am y brenin fel ei phartner rhywiol. Mae Eseia 61 a 62 yn gyforiog o ddelweddau o'r Arglwydd Dduw yn dod at ei bobl fel priodfab at ei briodferch. Yn Datguddiad 21 mae'r Jerwsalem newydd yn ymddangos fel priodferch wedi ei thecáu i'w gŵr ac, yn Datguddiad 19, cyfeirir at yr amser olaf neu'r 'eschaton' fel gwledd briodas yr Oen pan fo Crist yn hawlio ei briodferch, yr Eglwys.

91. Serch hynny, mae angen ymateb bugeiliol i'r rhai o'r un rhyw sy'n syrthio mewn cariad ac yn ffurfio partneriaethau. Mae gan rai diwinyddion agwedd gadarnhaol iawn at berthynas gyfunrhywiol ond maent am amddiffyn natur priodas Gristnogol (yn hytrach na phriodas fel sefydliad sifil mewn cymdeithas a gydnabyddir gan y gyfraith). Nid yw dadleuon o'r fath yn gwadu realiti perthnasoedd cyfunrhywiol, na'r ffaith bod Duw yn eu caru ac yn gofalu amdanynt, ac felly nid ydynt yn gwadu na ddylai uniadau o'r fath gael eu dathlu'n llawen a phriodol yn yr Eglwys. Fodd bynnag, nid priodas yw'r ffordd gywir o fynegi hyn. Mae diwinyddion fel John Milbank yn dadlau mai'r gwahaniaethau na ellir eu darostwng rhwng dynion a menywod sydd i'w canfod mewn diwinyddiaeth Gristnogol yw'r unig sail ar gyfer priodas. Mae priodas yn cadarnhau sut mae dynion a menywod yn gweddu i'w gilydd, ac yn yr uniad hwn o rywiau gwahanol mae'n meithrin perthynas a allai arwain at genhedlu mewn egwyddor. Felly, mae priodas y traddodiad Cristnogol yn ymwneud â chael plant (y posibilrwydd o leiaf) a gwahaniaethau. Mae Milbank yn dadlau:

[39] http://edition.cnn.com/2012/07/10/us/episcopal-same-sex-unions/ CNN Global News View *Episcopal Church approves same- sex blessing service* 11 Gorffennaf 2012

[40] Daw'r dyfyniadau o Wasanaeth Priodas yr Eglwys yng Nghymru 1984 sy'n ategu Effesiaid 5

> "It may well be best if the Anglican Church were to move swiftly to permit the blessing of gay civil partnerships in church. For this would render the strongest possible theological statement of the view that it is possible to recognise the legitimacy of faithful homosexual union without conceding that this is tantamount to marriage - a view that is entirely logical and has many historical precedents in different cultures."[41]

92. Yn ymarferol hefyd mae rhai arweinwyr eglwys wedi dadlau y gallai'r Eglwys uno ar sail y posibilrwydd o fendithio cyplau o'r un rhyw mewn rhai plwyfi ac nid eraill, tra byddai priodas o'r un rhyw yn bygwth ordinhad creadigaeth ac yn rhannu'r Eglwys.

93. Mae llyfr Heskins ar ei brofiad o weithio fel ficer yn Ne Llundain, a'i brofiad o weinyddu bendithion o'r fath ers blynyddoedd lawer, yn amddiffyniad diwinyddol grymus iawn, yn ogystal â bod yn gofnod teimladwy iawn o brofiadau'r cyplau a ddeuai ato. Mae'n dechrau gyda phrofiad y cyplau o'r un rhyw y mae wedi'u bendithio, ac yn disgrifio eu perthynas fel un sy'n herio categorïau confensiynol. Maent yn gyfeillion, ond mae'r gyfeillgarwch yn un a nodweddir gan fath arbennig o agosatrwydd. Mae Ioan 15:15 yn disgrifio Iesu'n dweud nad yw'n galw ei ddisgyblion yn weision mwyach, ond yn gyfeillion, perthynas a nodweddir gan agosatrwydd dwys at rywun. Rhoddir math arbennig o statws i gyfeillgarwch yn Ioan 15, ac yn wir gellir ei alw'n ffordd uwch o ymwneud ag eraill. Yn y bedwaredd efengyl ceir datguddiad o fywyd dwyfol drwy gyfrwng cyfeillgarwch Iesu â'i ddisgyblion, ac ni fyddai'r datguddiad hwnnw wedi bod yn bosibl heb y cyfeillgarwch hwnnw. Mae Heskins yn sôn am yr angen i adfer y cysyniad o gyfeillgarwch mewn diwinyddiaeth, a phwysigrwydd herio'r ddealltwriaeth o gyfeillgarwch mewn cymdeithas fodern. Os mai cyfeillgarwch yw rhannu agosatrwydd dwfn, a'i fod yn arwydd o gariad dwyfol, yna'r hyn sy'n bwysig mewn litwrgi bendith yw ei fod yn mynegi'r elfennau o gyfeillgarwch sy'n uno pob cwpl drwy wasanaeth uniad a gyfamodwyd. Mae Heskins yn dadlau bod y cyplau a fendithwyd ganddo yn tystio i'r gwahaniaeth y mae gwasanaeth bendithio yn gallu ei wneud i agwedd benodol ar eu bywydau gyda'i gilydd. Yn anad dim, mae'n rhoi cadarnhad, sefydlogrwydd ac yn dathlu popeth o werth yn eu perthynas. Mae bendithion yn mynegi perthynas gyfamodol y Creawdwr ac yn rhwymo pobl â'i gilydd mewn perthynas gyfamodol.

94. Mae'r ddadl a geir yn adroddiad yr Eglwys Esgobol yn ddigon tebyg:

> "The meaning and character of blessing play an important role in our shared calling to participate in God's own mission of reconciling love in the world. Pronouncing divine blessing takes many forms covering a wide range of occasions. When the Church gathers to bless the exchanging of sacred vows in a covenantal relationship, the blessing reflects a threefold

41 John Milbank ABC religion and ethics 13 March 2012 http://www.abc.net.au/religion/

action. First, the Church gives thanks for the presence of the Spirit discerned in the lives of the couple. Second, the Church prays for the divine grace and favor the couple will need to live into their commitment to each other with love, fidelity, and holiness of life. And third, the Church commissions the couple to participate in God's own mission in the world. This missional character of covenantal blessing, reflected in both Scripture and the historical traditions of the Church, deserves renewed attention today. While the Church gives thanks for God's presence and blessing, the public affirmation of the blessing of a covenantal relationship also sets that relationship apart for a sacred purpose: to bear witness to the creating, redeeming, and sustaining love of God."[42]

95. Byddai bendith o'r fath yn wahanol i'r fendith sy'n cael ei rhoi i gwpl os yw un o'r partneriaid wedi cael ysgariad. Gwneir hyn gan fod rhai traddodiadau eglwysig yn gwrthod caniatâd i bobl briodi ddwywaith mewn litwrgi eglwys. Felly, mae elfen o fethiant mewn litwrgi bendith o'r fath, waeth pa mor llawen yw'r achlysur, gan fod priodas o leiaf un ohonynt wedi gorffen mewn ysgariad. Nid yw'r rhai sy'n dadlau o blaid bendithio ar gyfer perthynas o'r un rhyw yn derbyn ei bod yn berthynas o fethiant.

96. Fodd bynnag, nid yw pob diwinydd yn derbyn dadl Milbank ac eraill ar y gwahaniaeth rhwng priodas a bendith gyfamodol. Mae Jean Porter, awdurdod byd-eang ar gyfraith naturiol yr oesoedd canol a heddiw, yn ysgrifennu:

"In my view, a natural law analysis of the purposes of sex and marriage does not foreclose the possibility of recognizing unions which are by their nature non-reproductive, but which allow for the expression of the mutual fidelity and interpersonal love of the partners – indeed, we have good theological as well as natural law reasons for doing just that. At the same time, a natural law analysis would rule out an interpretation of marriage according to which the expression of love should be the primary and regulative purpose of marriage as a social institution, to the neglect or detriment of its fundamental purpose as a framework for reproduction." [43]

97. Bydd y drafodaeth yn parhau ymhlith y diwinyddion hyn. Mae rhai diwinyddion yn dilyn anthropolegwyr drwy gydnabod hyblygrwydd rhywioldeb dynol mewn gwahanol ddiwylliannau, a thrwy'r hyblygrwydd hwn mae angen datblygu moeseg rywiol ar gyfer perthnasoedd cyfoes. Mae'r ddadl ynghylch a yw rhywun yn ffafrio bendith neu briodas i gyplau o'r un rhyw yn seiliedig ar sut mae rhywedd (tueddfryd wedi'i gymdeithasoli) yn cael ei gyflwyno ochr yn

---

[42] https://www.ctepiscopal.org/images/customer-files/I_Will_Bless_You_Corrected.pdf Standing Commission on Liturgy and Music 77th General Convention of The Episcopal Church, Gorffennaf 2012

[43] Jean Porter 'The Natural Law and Innovative Forms of Marriage: A Reconsideration.' *The Journal of the Society of Christian Ethics*, Cyfrol 30, Rhif 2 Rhagfyr 2010.

ochr â rhyw fel swyddogaeth fiolegol a ffisiolegol, ac a ddylid seilio rolau rhyw ar gyfatebolrwydd neu wahaniaeth.

98. Newydd-deb yr hyn a gynigir yn litwrgïaidd. Mae Mark Jordan[44] yn hynod feirniadol o ymdrechion i ddangos bod bendithio perthynas o'r un rhyw wedi bodoli mewn canrifoedd a fu. Er ei fod yn ysgrifennu'n gryf o blaid yr angen i gymeradwyo perthynas o'r un rhyw, mae'n gwrthod yr haeriad bod uniadau o'r fath wedi'u bendithio yn y gorffennol. Er gwaethaf ymdrechion i ddadlau hynny, mae Jordan yn datgan nad oedd litwrgïau canoloesol yn ymwneud â dathlu a gweinyddu ymrwymiad personol: "Even on the textual level – before one gets to questions of performance or divine causality - the meaning of a liturgy cannot be reduced to any literal paraphrase."[45] Mae litwrgi'n galw am weithredu dwyfol, ac yn dyfynnu barddoniaeth ysgrythurol yng ngwasanaeth y gwirionedd Cristnogol. Yr hyn sy'n absennol o litwrgïau canoloesol sy'n cydnabod cyfeillgarwch dau berson o'r un rhyw yw ymgais uniongyrchol i fendithio uniadau personol, rhywiol mewn perthynas o'r un rhyw. Y rheswm am hyn yw bod y syniad canoloesol o gyfeillgarwch i ni bellach yn berthynas, teimlad neu emosiwn sydd wedi diflannu – un a oedd yn "intrinsically public because caught up in a rich network of physical and social relationship."[46] Felly mae Jordan yn gwrthod dadleuon cyfarwydd Boswell a Bray fod yna ddefodau o uniadau o'r un rhyw yn y gorffennol, hyd yn oed os yw'r Eglwys wedi ceisio anghofio hynny.[47] Nid oeddynt yn golygu'r hyn rydym am iddynt eu golygu heddiw o gwbl, a phe baent wedi golygu'r hyn y credwn maent yn eu golygu i ni (bendithio perthynas rywiol, gyda phwyslais ar y personol a'r rhywiol) yn yr oesoedd canol, byddid wedi eu hystyried yn annerbyniol.

99. Mae Jordan yn fwy dewr o lawer. Mae'n edrych ar hunaniaeth lesbiaidd a hoyw Cristnogion heddiw y tu allan i'r Eglwys, er enghraifft y ddefod fel petai o 'ddod allan', gorymdeithio mewn parêd Pride, neu fynd i fan penodol i hoywon fel bar hoyw. Mae'r rhain yn enghreifftiau cyfoes o hunaniaeth ddefodol, ac nid ydynt yn weithredoedd gwleidyddol, diwylliannol neu gymdeithasol yn unig, er y gallent fod yn hynny hefyd. Maent yn ddefodau cymdeithasol sy'n dangos hunaniaeth bersonol a chymunedol, ac fe'u crëeir o fewn a chan gymunedau, yn cynnwys cymunedau lesbiaid a hoywon Cristnogol. Mae dulliau cofio'r rhai a gollwyd i AIDS yn yr un cywair: maent yn sicrhau hunaniaeth i'r unigolion, a allai fod yn heterorywiol neu'n hoyw. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi hefyd fod rhai Cristnogion hoyw a lesbiaidd yn gweld

[44] Mark Jordan 'Arguing Liturgical Genealogies, or the Ghosts of Weddings Past', yn Mark D Jordan, Meghan Sweeney a David Mellott (Gol) 2006 *Authorizing Marriage? Canon, Tradition and Critique in the Blessing of Same Sex Unions* Princeton: Princeton University Press,

[45] Jordan tud. 107

[46] Jordan tud. 109

[47] John Boswell 1994 *Same-sex Unions in Premodern Europe* New York: Villard Books, a Alan Bray 2003 *The Friend* Chicago:University of Chicago Press

defodau o'r fath gyda'u hiaith a'u symbolau dramatig, yn gwbl wrthgyferbyniol i'w natur hwy fel unigolion.

100. Byddai'n rhaid i ddefod litwrgïaidd o fendithio uniadau o'r un rhyw gyflawni cyfres symbolaidd o arwyddion, geiriau a dyfyniadau sy'n berthnasol i'r ddau dan sylw (y cwpl o'r un rhyw), ac sy'n berthnasol, o bosibl, i'r defodau cyfredol a ddefnyddir yn eu cymunedau (mae hon yn gymeradwyaeth amodol iawn). Ond yn bwysicaf oll, mae'n rhaid i litwrgïau o'r fath grisialu testunau ysgrythurol, teipoleg, creadigaeth, maddeuant, hanes iachawdwriaeth, gyda holl ystyr eschatolegol yr undeb o ogoniant dwyfol a meidroldeb dynol yng ngwasanaeth Duw sydd wedi'n creu a'n gwaredu ni i gyd. Mae Jordan yn dadlau'n gryf o blaid y pwynt hwn am un rheswm. Yn rhy aml, mae priodas Gristnogol (rhwng dyn a menyw) wedi sancteiddio'r uniad sifil a gyflawnir gan y wladwriaeth neu (o'i roi'n blwmp ac yn blaen) wedi'i 'grefyddoli'. Mae hynny'n lleihau litwrgi Cristnogol i fod yn ddim mwy nag eisin ar y gacen, neu ar ei waethaf yn ffurf ar reolaeth gymdeithasol. Ar ei orau, fel y dywed Jordan mewn ymadrodd trawiadol, unig ddiben litwrgi yma yw "ratify the local etiquette."[48] Mae felly'n dadlau ei bod hi'n bryd i'r Eglwys wneud rhywbeth gwirioneddol newydd: creu litwrgïau bendith sy'n siarad â'u gwrthrychau (pobl lesbiaidd a hoyw), sy'n berthnasol i'r defodau cymdeithasol y maent yn cymryd rhan ynddynt, a gofyn am fendith Duw ar eu perthynas. I ddyfynnu Jordan eto: "any liturgy must remain an incomplete register of traces of performed eschatological gestures…a liturgy for blessing unions will attempt to accomplish something that eludes any description, much more any paraphrase. The words and actions of a liturgy of union are not supposed to be adequate figures for the recognition, consolation or support they offer".[49]

101. Mae hyn yn wirioneddol newydd, ond mae'n ymateb i'r realiti bugeiliol sydd bellach yn wynebu'r Eglwys. Ymhellach, mae'n rhan o draddodiad o litwrgïau eraill sydd bob amser wedi galw am weithredu dwyfol ar y rhai sydd angen cymorth a bendith Duw. Yn hynny o beth, nid ydynt yn wahanol i unrhyw litwrgi cyhoeddus arall, ar draws y canrifoedd. Wrth i ni agor ein hunain i Ysbryd Duw, cawn ein hwynebu â'r dasg o fyw'n ffyddlon gerbron y triol Dduw, y mae ei fywyd yn datgelu gras Duw.

102. Mae bendithio uniadau o'r un rhyw wedi bod yn nodwedd reolaidd o Eglwys Anglicanaidd Canada ers 2010, a bellach fe'i hystyrir yn rhan o'r gwaith bugeiliol arferol i'r Eglwys honno mewn llawer o esgobaethau, er nad pob un ohonynt. Ceir dadleuon tebyg yn yr Unol Daleithiau (yr Eglwys Esgobol) a chafwyd llond llaw o'r cyfryw fendithion answyddogol yn Eglwys Loegr. Argymhellodd adroddiad Pilling fendith o'r fath (ond nid yn unfrydol) yn ei adroddiad ym mis Tachwedd 2013. Rheswm bugeiliol yw'r prif reswm dros gymeradwyo bendithion. Byddai cyfnod o arbrofi yn galluogi'r eglwys i ymateb

48 Jordan tud. 120
49 Jordan tud. 117

i gyplau o'r un rhyw mewn ffordd gadarnhaol. Mae'r drafodaeth ai rhywbeth rhwng dyn a menyw yn unig yw priodas yn y ffydd Gristnogol yn un i'r dyfodol. Am nawr, mae angen i ni werthfawrogi a charu'r rhai sy'n dilyn Crist, yn ymuno â'r Eglwys Anglicanaidd ac yn ffurfio partneriaethau o'r un rhyw. Yn enwedig gan fod y cariad rhyngddynt yn mynegi cariad Duw tuag atynt, a dylai'r Eglwys fendithio hynny, fel y mae'r Eglwys yn bendithio popeth a grëodd Duw sy'n dda: creaduriaid byw, adar, pysgod mawr y moroedd a bwystfilod o bob rhywogaeth[50] – a hyd yn oed, fel y gallwn ddadlau erbyn hyn, bartneriaethau o'r un rhyw. Mae haelioni Duw yn ei greadigaeth yn cael ei gyfyngu'n unig gan ymateb cyfyngedig yr Eglwys, fel ag yr oedd ymateb ein cyndeidiau i bobl o gefndiroedd ethnig gwahanol mewn canrifoedd a fu,[51] a'r ymateb i fenywod a oedd am gael eu hordeinio ychydig o ddegawdau yn ôl. Mae'n bryd newid, a gorfoleddu gyda Duw i fendithio ei greadigaeth fel rhywbeth da iawn.

## Priodas fel Uniad rhwng Dau Gyfartal sy'n Caru'i Gilydd heb ystyried Gwahaniaeth Rhywiol

103. Wrth fendithio a chynnal gwasanaethau priodas, ac wrth gydnabod seremonïau a gynhelir mewn cyd-destun seciwlar neu gyd-destunau ffydd eraill, mae'r Eglwys yng Nghymru yn cefnogi priodas fel nodwedd amrywiol o gymdeithas ddynol, sy'n cynnig cyfle unigryw i gydnabod natur a phresenoldeb Duw yn y byd.

104. Mae priodas wedi'i gwreiddio mewn creaduroldeb: mae'n rhan o'n natur gorfforol. Mae hefyd yn ddatganiad eschatolegol, a'i fendithio yn y ffordd hon gan yr Eglwys gan ei fod yn siarad am Grist a'i Eglwys, ac am y 'greadigaeth newydd'. Er bod tensiwn gyda rhai dehongliadau o'r ysgrythurau a thraddodiadau diwylliannol, mae priodas wedi esblygu mewn ffyrdd sy'n gyson â'r Efengyl a chyda chyfeiriad proffwydol cyffredinol datblygiad yr ysgrythurau a'u dehongliad, dan arweiniad yr Ysbryd. Gwelwyd tuedd tuag at weledigaeth o gydraddoldeb, cydymddibyniaeth a natur y berthynas, yn hytrach nag un o bartneriaid wedi'u' diffinio gan eu swyddogaeth fiolegol.

105. Byddai agor priodas i gyplau o'r un rhyw yn parhau'r duedd hon o ddwyn y cnawd a'r Ysbryd ynghyd a bydd yn cryfhau, yn hytrach na gwanhau, gallu priodas i ddatgan gwirioneddau nefolaidd y Deyrnas. Yn wir, gall helpu i gryfhau ein dealltwriaeth, gan symud i ffwrdd o gysyniad o briodas fel mater o gategorïau a rolau biolegol sefydlog tuag un o briodas fel uniad rhwng dau gyfartal sy'n caru ei gilydd yn yr Ysbryd.

---

[50] Genesis 1:24

[51] Cyfeiriad at yr esgob Anglicanaidd du cyntaf yn Affrica, Samuel Crowther, a gafodd ei gysegru ym 1864 ond na châi ond gwasanaethu i bobl dduon yn unig.

106. Rhoddir ystyriaeth yma i’r cyfraniad y gall cyplau o’r un rhyw ei wneud i ddiwinyddiaeth yr Eglwys yng Nghymru ar briodas, gan ganolbwyntio ar y Greadigaeth a Llun a Delw Duw; Teyrnas Dduw a Chreadigaeth Newydd; Cariad, Ffyniant a Chyfeillgarwch; a Chenhedlu, Rhyw a Phlant.

107. Y Greadigaeth a Llun a Delw Duw. Mae priodas yn ‘rhodd gan Dduw’ yn y creu ond mae ein dealltwriaeth ni o’r creu yn un sy’n esblygu. Gallwn gael golwg newydd ar hanes y creu o safbwynt Beiblaidd wrth i ddisgyblaethau fel cosmoleg, damcaniaeth esblygiad, seicoleg, cymdeithasoleg a bioleg ddatblygu. Mae diwinyddiaeth Gristnogol gyfredol, sy’n trafod hunaniaeth a pherthynas, fel arfer yn dechrau o safbwynt natur y bobl a grëwyd ar lun a delw Duw. Bellach, caiff hunaniaeth bersonol ei gweld fel rhywbeth newidiol ac amlhaenog - rhywbeth sy’n datblygu ac yn amrywiol ac nid yn rhywbeth anhepgorol a chyson. Yn yr un modd, mae safbwynt Trindodaidd yn dangos i ni fod y ffaith ein bod wedi’n creu ar lun a delw Duw yn ein gwneud ni’n unigolion deinamig mewn perthynas, pawb â’i gymeriad unigryw ei hun. Nid ydym wedi’n cyfyngu i rolau sefydlog ar sail rhyw, ac nid ydym yn canfod ein hundod fel unigolion mewn ffyrdd sydd wedi’u gwreiddio mewn normaleiddio disgrifiadau o ryw a rhywedd.

108. O ran hunaniaeth rywiol, nid oes gennym un nodwedd gyffredin benodol i ddynodi hunaniaeth – dynodydd deuol gwryw/benyw – ond yn hytrach rhyw biolegol, rhyw profiad a chyfeiriadedd rhywiol sydd gyda’i gilydd yn diffinio sut rydym yn profi ein realiti corfforedig. Er mai bod yn ddyn, yn wrywaidd a chael eich denu at fenywod (yn fiolegol), neu’n fenyw, benywaidd a chael eich denu at ddynion (yn fiolegol) yw’r norm ystadegol o bosibl, nid ydynt yn normaleiddio, ac mae nifer sylweddol o bobl yn profi norm gwahanol.

109. I rai, nid yw hunaniaeth fiolegol (o ran cromosomau neu organau atgenhedlu, dyweder) yn perthyn yn daclus i’r dynodydd deuol gwryw/benyw. Efallai yr ystyriant eu hunain yn rhyngrywiolion, neu yn wrywaidd a benywaidd, neu’r naill na’r llall. Gall eraill, fel pobl drawsrywiol neu drawsryweddol, brofi tensiwn rhwng eu rhyw biolegol a’u rhyw profiad neu eu rôl rhyw a grëwyd gan gymdeithas.

110. Byddai priodas sy’n cydnabod amrywiaeth o gyfeiriadedd rhyweddol a rhywiol heb wahaniaethu, ac sy’n cydnabod profiad a bioleg rhyngrywiolion, yn osgoi’r angen am gategorïau deuol fel “partneriaethau hoyw” a “phriodasau heterorywiol” sydd unwaith eto’n gorfodi diffiniad hanfodol ar greu.

111. Mae Genesis 1 yn dysgu bod Duw yn ein creu i gyd yn ein holl amrywiaeth, ond bod yr amrywiaeth hwnnw yn cael ei ddal ynghyd mewn undod. Nid yw creu categorïau o berthnasoedd ‘ar wahân ond cyfwerth’ a fendithir yn dal undod y greadigaeth (na’r greadigaeth newydd) gan nad yw’n dal undod llun a delw Duw, a’i gymhwysiad cyffredinol i ddynoliaeth. Drwy gynnwys unrhyw ddau berson heb wahaniaethau deuaidd o fewn un cysyniad o briodas, gall yr

Eglwys adlewyrchu'n well llun a delw Duw adeg y creu a natur hunaniaeth ddynol a roddwyd gan Dduw. Mae rhai wedi dadlau bod adnabyddiaeth Adda o Efa yn un o debygrwydd, nid gwahaniaeth.

112. Gellir dadlau bod y gwahaniaeth rhwng dyn a menyw yn wahaniaeth o fath, ac nid o radd, ac er mwyn mynegi undod hunaniaeth yn gywir, bod rhaid i briodas gynnwys dyn a menyw, un o bob math. Ond nid yw hyn yn gywir yn fiolegol nac yn uniongred ddiwinyddol. Yn fiolegol, mae'r gwahaniaeth rhwng dyn a menyw yn un o radd – yn ymwneud â gwahaniaeth genetig bychan ar un allan o 46 cromosom. Nid oes unrhyw beth ym mioleg dyn i awgrymu y dylid meddwl am wahaniaethiad cyfwerth o 'fath' i'r hyn a wnaed rhwng pob math o greaduriaid byw yn Genesis 1 er mwyn gwahaniaethu rhwng dynion a menywod. Yn wir, mae bioleg yn ategu'r hyn sy'n cael ei gadarnhau yn Genesis – er yr holl wahaniaethau ac ymddangosiadau arwynebol, un cnawd yw dynoliaeth mewn gwirionedd, ac mae hyn yn wir hefyd am ein gwahaniaeth mwyaf amlwg, sef rhyw.

113. Yn ddiwinyddol hefyd mae'r ymgnawdoliad yn mynnu na allwn ystyried rhyw fel gwahaniaeth o 'fath', yn nhermau diwinyddol. Pe byddai'n hynny, ni allai Iesu fod wedi bod yn gwbl ddynol, dim ond yn gwbl wrywaidd. Dim ond hanner ein natur ddynol fyddai wedi'i gymryd trwy gael ei greu yn ddyn.

## Teyrnas Dduw a Chreadigaeth Newydd

114. Yn ogystal â bod wedi'i gwreiddio mewn creadigaeth, mae bendith Gristnogol ar briodas yn datgan realiti sy'n rhagori ar y creu ac yn ei gwblhau: mae'n datgan Teyrnas Dduw. Efallai y bydd yn cael ei ystyried yn sacramentaidd gan ei fod yn ymgorffori realiti ysbrydol mewn ffordd ddaearol, gan "arwyddocâu i ni y dirgel undeb y sy rhwng Crist a'i Eglwys" (Gwasanaeth Priodas y Llyfr Gweddi Cyffredin 1984). Mae'r Eglwys yn Gorff amrywiol, sy'n gallu cynnwys amrywiaeth gwych dynoliaeth a unwyd yng Nghrist (Gal 3. 26-28).

115. Nid yw'r greadigaeth newydd yn dychwelyd i "Oes Euraidd" flaenorol y mae ei ffurf wedi'i sefydlu eisoes, ac sydd wedi'i gwreiddio'n ddigyfaddawd mewn testun neu gyfnod hanesyddol penodol. Mae'r byd presennol hwn yn radicalaidd o agored i bosibilrwydd, i botensial esblygol a ffurfiau sy'n newid. Yn y byd hwn gallwn gael cip, yn y Drindod a'r creu, drwy ddameg a dychymyg proffwydol, ar yr addewid o'r greadigaeth newydd sydd eto i'w gwireddu. Nod terfynol y greadigaeth yw Crist ac yng Nghrist nid oes na gwryw na benyw, nac unrhyw gategori arall o wahaniaeth bydol a chnawdol.

116. O'i dyddiau cynnar, mae'r Eglwys wedi ymrafael â goblygiadau'r athrawiaeth hon, gan benderfynu dros amser bod enwaediad y galon yn golygu gwrthod enwaediad y cnawd; bod ein caethiwed ysbrydol i Grist yn golygu gwrthod

caethiwed corfforol i bobl eraill; bod ein dealltwriaeth o natur ddiduedd galwad Duw yn golygu gwrthod allgáu menywod o gael eu hordeinio yn offeiriad ac yn esgobion. Dyma ran o drywydd cyson gwaith yr Ysbryd sydd i'w gweld yn yr ysgrythurau ac yn nhraddodiad yr Eglwys yng Nghymru. Mae parhau i ddilyn yr Ysbryd ar y llwybr ffyddlon hwn mewn perthynas â phriodas yn cadarnhau bod priodas dda yn dwyn ffrwyth yr Ysbryd (Gal 5:22-23). Priodas yng ngoleuni'r Ysbryd yw hon yn hytrach na'r cnawd, ac nid yw ei ffrwyth wedi'u cyfyngu i un ffurf o bartneriaeth rywiol yn unig.

117. Cariad, ffyniant a chyfeillgarwch. Mae'r Eglwys a chymdeithas yn dyrchafu priodas fel disgyblaeth dda a strwythur ar gyfer ymrwymiad cariadus, hirdymor sy'n helpu cyplau i ffynnu yng nghyd-destun teulu a chymuned. Mae'r Eglwys yng Nghymru'n deall priodas fel ymgorfforiad o gariad yng Nghrist, gan ei disgrifio fel cyflwr lle 'y gall pob aelod o'r teulu, mewn amseroedd da ac amseroedd drwg, gael cysur, cwmnïaeth a nerth a thyfu i aeddfedrwydd mewn cariad. Y mae priodas yn cyfoethogi'r gymdeithas ac yn cryfhau'r gymuned." (Gwasanaethau Priodas 2010)

118. Gellir ystyried felly bod priodas yn ymwneud â ffynnu. Mae canolbwyntio ar ffynnu yn ein helpu ni i ddal ein profiadau o'n hunain fel cyrff yn y byd ac fel aelodau o gymuned law yn llaw â'n profiadau o'r dwyfol. Fel y wir winwydden mae Iesu yn ei disgrifio (Ioan 15: 1-8), mae ffynnu yn ymwneud â chydgysylltiad rhwng pobl, trugaredd a meithrin cariad sy'n hybu twf, lles a chyfiawnder o fewn cymuned gynhwysol, ryddhaol, groesawgar. Gan wrthod y ddeuoliaeth rhwng meddwl a chorff, ysbryd a mater, mae ffynnu yn gofyn am weithredoedd yn ogystal â geiriau: y broses waredigol o greu cyfiawnder, gan ymgysylltu'n feirniadol a phroffwydol gyda'r byd er mwyn cyflawni Teyrnas Dduw.

119. Mae ein trafodaeth am bartneriaethau o'r un rhyw a phriodas sifil o'r un rhyw (cyfreithlon yng Nghymru ar ôl Mawrth 2014, ond nid yn yr Eglwys yng Nghymru) yn cael eu llywio gan y ffordd mae cyrff a phrosesau dynol yn llywio ac yn dylanwadu ar ein hawydd, gwybodaeth a'n penderfyniadau. Mae cyrff go iawn wastad wedi bod yn her i'r Eglwys, ac mae cyrff a rhyw gyda'i gilydd yn gryn broblem, yn enwedig mewn perthynas â'r dwyfol; ac mae'r anghysurwch hwn i'w weld gyda chyfunrhywiaeth. Mae rhai yn gweld agwedd yr Eglwys yn wrthgyferbyniol i'w ffyniant; nid ydynt wedi cael lletygarwch, rhyddhad na chyfiawnder, ac mae llawer wedi profi allgáu a gwahaniaethu. Mae'r Eglwys wedi mynd i'r afael â materion cynhwysiant mewn perthynas ag eciwmeniaeth, hil, gallu corfforol a meddyliol a rhyw. Nawr, cawn ein herio'n debyg ar fater pobl hoyw a lesbiaidd a'u hawydd i ffynnu.

120. Mae cariad rhywiol sy'n dduwiol a chorfforol yn golygu dangos parch sylfaenol at y person arall, cyfnewid cyfartal, a rhoi sylw i anghenion y person arall. I ffynnu'n ysbrydol ac yn faterol, mae angen i ni ddod o hyd i'n gwir hunaniaeth a gweld eraill yn ei chydnabod yn symbolaidd. Mae hyn yn hanfodol ar gyfer

twf a chyflawniad. Ond mae unigolion a chyplau cyfunrhywiol yn cael eu gyrru i'r cyrion, eu hanwybyddu, yn cael eu hystyried yn israddol neu fe wahaniaethir yn eu herbyn.

121. Yn unol â'r anghysurwch dwfn am deimlo'n wahanol ac ar wahân, sydd wedi'i fynegi i raddau helaeth yn nhermau amhurdeb ac israddoldeb, mae llawer o bobl heterorywiol yn ofni neu'n ffieiddio'r rhai sydd â chyfeiriadedd rhywiol gwahanol iddynt eu hunain, ac mae'r teimlad hwnnw'n atafiaethol ei natur. Ond a yw ein ffiniau diwylliannol cyfredol mewn perthynas ag ymddygiad rhywiol yn seiliedig yn gadarn ar yr hyn sydd o fudd yn gyffredinol, gan hyrwyddo ffyniant yr unigolyn a'r gymuned? Neu a yw rhai ffiniau'n seiliedig ar ragfarnau hanesyddol am wahaniaeth neu arwahanrwydd corfforol? A yw agwedd yr Eglwys yn cael ei lliwio gan ofn a darostwng yr hyn sy'n wahanol? A yw parhau gyda'r datguddiad dwyfol yn galw arnom i gwestiynu'r ffiniau a'r alltudiaethau hyn? A allai ystyried o'r newydd ein galluogi i dderbyn bod pobl gyfunrhywiol yn gallu cyfryngu'r dwyfol drwy eu natur ymgorfforedig a rhywiol.

122. Os ydym am gael cymdeithas gyfiawn a gofalgar lle gall pawb ffynnu, gyda manteision a heriau priodas yn agos i'w chalon, yna ni allwn eithrio cyplau nad ydynt yn heterorywiol, os yw eu perthynas yn wrthgyferbyniol i'n perthynas ni neu i'r hyn sydd er lles pawb. Yn wir, byddai disgyblaeth a chefnogaeth y sefydliad cyhoeddus o briodas yn hyrwyddo lles y cwpl a chymdeithas ehangach, gan gyfrannu at ffyniant pawb. Mae priodas fel rhywbeth sydd er lles pawb yn awgrymu bod y fframwaith cydnabyddedig hwn ar gyfer perthynas gariadus yn bwysig i'r cwpl a'r gymuned: ysgol ar gyfer rhinwedd gyda dyletswyddau i ymrwymo'n hirdymor, ac amddiffyn a meithrin aelodau o'r teulu, yn cynnwys plant.

123. Cenhedlu, rhyw a phlant. Caiff hyn ei ystyried yn iawn fel rhodd arbennig i'w ddathlu gan Dduw, lle rydym ni'n dod yn gyd-greawdwyr gyda Duw. Caiff y rhinwedd sacramentaidd hon ei chydnabod fel rhan o sagrafenoldeb priodas. Ond nid oes rhaid i bob priodas arwain at genhedlu. Mae gwasanaeth priodas yr Eglwys yng Nghymru bellach yn gosod y cysylltiad rhwng priodas a chenhedlu mewn cromfachau, fel opsiwn a allai fod yn berthnasol neu'n ddymunol neu beidio i'r cwpl sy'n priodi.

124. Nid yw'r Eglwys yn gwahardd y rhai nad ydynt am gael plant neu sy'n methu cael plant, neu sydd yn hŷn nag oedran esgor, i briodi. Nid yw cyplau priod di-blant neu ddiwair yn gwanhau ein dealltwriaeth gorfforaethol o briodas, yn wir maent yn gallu ei ddyfnhau. Efallai y bydd rhai cyplau yn ystyried methiant i gael plant neu ryw yn drasiedi, ac yn dangos Crist i ni yn y ffordd maent yn ymdopi â phoen. Bydd eraill yn 'Eunuchiaid er mwyn Teyrnas Nefoedd' (Mathew 19:12), gan ddewis diweirdeb neu fod yn ddi-blant, dros dro neu'n barhaol. Mae'r Eglwys yn cefnogi diweirdeb fel rhan o'r cyhoeddiad bod y Deyrnas yn nesáu; mae'n eschatolegol, neu'n gysylltiedig â'r 'greadigaeth newydd'. I fenthyg o'r traddodiad Catholig, mae'n "proclaims the presence on

earth of the final stages of salvation with the arrival of a new world, and in a way it anticipates the fulfilment of the kingdom as it sets forth its supreme values which will one day shine forth in all the children of God." (Pab Pawl VI Sacerdotalis Caelibatus 1967)

125. Mae priodas ddiwair, anffrwythlon neu ar ôl diwedd y mislif yn golygu na all y cwpl gael plant yn fiolegol. Ac nid yw cyplau o'r un rhyw yn gallu cenhedlu'n rhywiol ychwaith; ond eto, fel yn achos mathau eraill o berthynas, ni ddylai hyn fod yn rhwystr i briodi. Yn union fel y mae'r Eglwys yn croesawu cyplau na allant fod yn rhieni biolegol, nid yw ymestyn priodas i gyplau nad ydynt yn heterorywiol yn gwanhau'r cysylltiad rhwng priodas a chenhedlu. Nid yw'r cysylltiad hwn yn cael ei wanhau ychwaith gan yr Eglwys yn croesawu'r rhai sydd heb genhedlu drwy gyfathrach rywiol. Yn yr un modd, nid yw cefnogaeth yr Eglwys yng Nghymru i ddulliau atal cenhedlu yn ailddiffinio rhyw nac yn dileu unrhyw gysylltiad rhwng rhyw a chenhedlu, ond mae'n tynnu sylw at ddibenion ac ystyron eraill gweithgarwch rhywiol, gan ehangu ei ddiffiniad a'i bwysleisio fel mynegiant corfforol o gariad, yn hytrach na fel gweithred fiolegol yn unig. Yn wir, mae'r ffyrdd niferus y gall pobl niweidio eu hunain ac eraill drwy eu gweithgarwch rhywiol, neu feithrin ei gilydd mewn cariad, i'w priodoli i raddau helaeth i'r ffyrdd y mae realiti mewnol cymhelliant, dealltwriaeth, cariad a phwrpas, a'u habsenoldeb, yn cael eu mynegi'n gorfforol ac nid i ffurf gymharol eu horganau cenhedlu. Y ffordd mae pobl yn trin ei gilydd sy'n bwysig nid siâp yr offer cnawdol a ddefnyddiant i fynegi hyn. O'r hyn rydym ni'n ei ddeall, mae enwaedu yn ymwneud â'r galon nid y pidyn, felly mae'r ffordd y mae'n rhaid i ni drin ein gilydd yn rhywiol yn cael ei reoli gan y galon a'r Ysbryd ac nid yr organau cenhedlu.

126. Mae dysgeidiaeth Crist yn rhoi blaenoriaeth i 'deulu ailgyfansoddedig' y Deyrnas dros deuluoedd biolegol, ac roedd diwinyddiaeth Sant Paul yn rhoi blaenoriaeth i fabwysiadiad plant Duw dros unrhyw hawliadau a oedd yn deillio o ddisgyniad biolegol. Yn y modd hwn, nid yw teuluoedd sy'n magu plant pobl eraill yn cynyddu, nac yn lleihau sagrafenoldeb priodas a pherthnasoedd dynol. Maent yn cael plant yn ôl yr Ysbryd nid y cnawd ac yn siarad am weithgarwch Eglwys Duw yn y greadigaeth newydd fel mae rhieni biolegol yn siarad am weithgarwch creadigol Duw yn y byd hwn. Mae mabwysiadu a bod yn llys-rieni yn weithredoedd eschatolegol. Mae'r un peth yn wir am gyplau o'r un rhyw yn magu plant.

127. Erbyn hyn mae gennym gartrefi teuluol sefydlog lle mae cyplau hoyw yn gofalu am blant yn llwyddiannus ac yn dangos amrywiaeth o ffurfiau o'r ymwneud rhwng rhiant a phlentyn. Byddai priodas yn darparu sicrwydd o gydnabyddiaeth a chefnogaeth y cyhoedd i'r cyplau hyn; ni fyddai'r rhai sy'n dymuno cael perthynas gariadus, ymroddedig yn gorfod wynebu'r dewis o ymrwymo i naill ai aros yn ddi-briod neu i fath seciwlar o gyd-fyw.

128. Gofynnwyd i un o glerigion yr Eglwys yng Nghymru fendithio cwpl lesbiaidd. Roeddynt yn darparu gofal i ddau blentyn, un ag anableddau corfforol a meddyliol, a'r llall o hil gymysg. Gyda'i gilydd roedd y teulu hwn yn cynnwys llawer o nodweddion y rhaniadau biolegol a ddefnyddir i wahaniaethu rhwng pobl a rhannu'r undeb hanfodol o ddynoliaeth a wnaed ar lun a delw Duw. Ond maent yn ffynhonnell o lawenydd ac yn ffynnon o gariad cyfartal y naill i'r llall sy'n goresgyn unrhyw rwystr corfforol neu gymdeithasol. Mae'r ffaith eu bod wedi gofyn am fendith gweinidog Cristnogol, ar ôl y cwbl sydd wedi'i gyfeirio atynt a'u hunaniaeth, ynddo'i hun yn gwneud i rywun deimlo'n wylaidd iawn ac yn dangos yn huawdl werthoedd yr Efengyl yn amlwg drwy eu huniad. Roedd y ffaith bod y clerig yn teimlo cywilydd mai dim ond ei fendith ef yn unig a allai ei gynnig ac nid cefnogaeth swyddogol yr Eglwys efallai yn arwydd bod yr Efengyl yn cael ei datgan mewn un cyfeiriad yn unig y diwrnod hwnnw.

129. "Y rhyfeddod, mewn byd cystadleuol sy'n annog pawb i'w gyflawni ei hun, yw bod y ffaith fod pobl am briodi yn cydnabod na all neb fod yn gyflawn ond mewn perthynas gariadus" (Archesgob Barry Morgan, Rhagair i Wasanaethau Priodas 2010). Mae'n fwy o ryfeddod fyth bod pobl hoyw a lesbiaidd yn dymuno priodi mewn Eglwys sydd wedi achosi cymaint o boen iddynt. Mae'n rhaid i ni deimlo'n wylaidd fod rhai am wneud hynny, a pheidio â synnu fod eraill yn dewis peidio.

130. Cyfoethogi priodas: Nid yw dealltwriaeth Gristnogol o briodas yn cael ei bygwth drwy gynnwys cyfunrhywioldeb; mae'n ei chyfoethogi. Ni fyddai bendithio priodas rhwng cwpl o'r un rhyw yn ailddiffinio ond yn dyfnhau'r ddealltwriaeth Gristnogol o briodas, yn gyson â llwybr ei datblygiad drwy'r ysgrythurau a thraddodiad. Os yw priodas er lles pawb, yna mae gwrthod y posibilrwydd o briodas i gyplau o'r un rhyw yn diystyru cyfreithlondeb eu hunaniaeth a'u profiad, gan fethu rhoi llais i'w cariad, eu hawydd a'u profiad, a gwrthod daioni gwreiddiol pob person fel ag y maent: yn gyfan, ac yn haeddu cariad. Mae'r methiant hwn o gariad yn rhwystr i ffyniant pob aelod o gymdeithas, yn her i'r syniad o briodas fel rhywbeth sydd er lles pawb, yn rhwystr i brofiad pob person o ffafr rasol Duw.

131. Gall safbwyntiau pobl nad ydynt yn heterorywiol am ryw, cariad, perthynas a phriodas fod yn sail ddefnyddiol i drafodaeth o fewn y traddodiad Cristnogol. Gallant gynnig sylwadau ar god priodas traddodiadol sydd wedi'i fowldio gan y patrwm diwinyddol o berthynas ddarostyngedig ac anghyfartal yr Eglwys a Christ, gyda'r gwryw yn ben a'r wraig yn darostwng, yr oedd ei swyddogaeth fiolegol yn gysylltiedig â halogi, cywilydd ac amhurdeb. Mae ffynnu'n ymwneud â pherthynas, bywyd a meithrin. Yn hanesyddol, fodd bynnag, mae patrymau priodas wedi tueddu i roi gwerth ar ddominyddiaeth, rolau sefydlog a hierarchaeth uwchben cydymddibyniaeth a chysylltioldeb, gan arwain at anghyfiawnder trasig wrth i fenywod, pobl gyfunrhywiol ac eraill gael eu hecsbloetio a'u cam-drin. Byddai cydnabod a derbyn yn gariadus yr holl

amrywiaeth o ryw, rhywedd a chyfeiriadedd rhywiol yn gwneud anghyfiawnder o'r fath yn annirnadwy. Gall cyplau o'r un rhyw fod â phrofiadau gwerthfawr o gydraddoldeb, cydymddibyniaeth a dwyochredd mewn perthynas y byddai'n fuddiol i'r Eglwys wrando arnynt: yn wir, gall partneriaeth hoyw neu lesbiaidd roi llawer mwy o ystyr i briodas, er enghraifft o ran neges radical Iesu o gydraddoldeb gerbron Duw a chynhwysiant o fewn yr Eglwys.

132. Wrth baratoi'r adroddiad hwn, bu'r Comisiwn Athrawiaeth yn gwrando'n fanwl am ddiwrnod ar bobl a oedd yn rhannu eu profiad o gael eu denu'n rhywiol at bobl o'r un rhyw (roedd rhaid ohonynt yn gwrthod y term cyfunrhywiol). Bu i ni ddysgu llawer drwy sgwrsio'n barchus, heb gwestiynu dilysrwydd profiad y rhai a holwyd. Bu pedwar unigolyn yn siarad â'r Comisiwn, gyda phob sgwrs yn para dros awr. Roedd dau ohonynt, wrth siarad am eu profiad o gael eu denu at bobl o'r un rhyw, yn teimlo ei bod hi'n bwysig iddynt eu hunain fel Cristnogion ac felly i'r eglwysi gynnal y safbwynt traddodiadol. Roedd y dyn a'r fenyw arall yn disgrifio eu hunain fel lesbiaidd neu hoyw, a'r ddau yn rhoi sylwadau ar bartneriaethau sifil. Roedd y ddau am gael y cyfle i gael priodas o'r un rhyw, wedi'i chynnig gan yr Eglwys. Roedd eu dadl yn syml. Yn achos cyplau heterorywiol, mae dynion a menywod yn syrthio mewn cariad, maent yn cydnabod eu cariad yn gyfreithiol mewn seremoni briodas, ac os ydynt yn Gristnogion sy'n syrthio mewn cariad ac yn dymuno priodi, yna'n naturiol gwnant eu haddunedau gerbron Duw mewn seremoni briodas eglwysig. Pam na all pobl hoyw a lesbiaidd gael gwneud hyn hefyd? Byddai unrhyw beth arall yn teimlo fel ail orau.

133. Caiff y pwynt hwn ei ategu gan yr ymchwil empirig a wnaed gan Adran Astudiaethau Crefyddol Prifysgol Caerhirfryn, a'r Athro Linda Woodhead, ar safbwyntiau aelodau eglwysi a chymdeithas gyfan ar faterion cred a moesoldeb personol. Defnyddiwyd y gwaith ymchwil hwn fel sail i gyfres o drafodaethau ac ymgynghoriadau, ac mae wedi cael llawer o gyhoeddusrwydd. Yn y Church Times, ysgrifennodd Linda Woodhead:

> "The important point is that younger people are still open to faith, but increasingly closed to the Churches and indeed to religion in general. Religion has become a toxic brand…Among Christians under 45 years of age, for example, less than 30% think that same- sex marriage is wrong, and an absolute majority think it is right (the rest "Don't know"). This results in a gulf in values between over- 60s and under -50s. The church (meaning here the Church of England) is officially on the side of the former, and set against a moral shift as significant as that which took place earlier in the twentieth century in relation to race." [52]

[52] Linda Woodhead, ' Time to get serious', tud. 23-4, *Church Times*, 31 Ionawr, 2014

134. Mae'r rhai sy'n siarad ar ran y gymuned hoyw, fel Changing Attitude, neu LGCM, wedi mynegi safbwyntiau tebyg.[53] Er nad yw Changing Attitude wedi ymrwymo ei hun yn gyhoeddus i alw ar eglwysi i dderbyn priodas o'r un rhyw fel defod Gristnogol, mae wedi cyhoeddi llawer ar y drafodaeth yn y senedd, yn ystod 2013,[54] yn cynnwys y rhai sy'n dweud y canlynol "extending the definition of marriage to include same-sex couples might in fact be a redemptive step."[55]

135. Byddai ymestyn priodas i bob cwpl waeth beth fo'u rhyw yn rhoi i bawb y ddisgyblaeth o hunanaberth adeiladol sy'n ceisio gwasanaethu eraill, gan gyfrannu at adeiladaeth a chenhadaeth yr Eglwys. Byddai priodas Gristnogol o'r un rhyw yn rhoi lle sanctaidd lle gallai pobl hoyw a lesbiaidd arfer sancteiddhad a deall eu hunain fel aelodau o Gorff Crist drwy eu rhywioldeb, ac nid er gwaethaf hynny.

136. Ni fyddai esblygu arferion yn y fath fodd yn newid ystyr priodas, byddai'n ei gyfoethogi. Byddai'n fynegiant mwy dilys o ddealltwriaeth y Cristion o'r creu a hunaniaeth ddynol ar lun a delw Duw, gan gyhoeddi'r Efengyl yn well mewn diwylliant cynyddol faterol. Wrth symud y tu hwnt i ddiffiniad o hunaniaeth ddynol yn seiliedig ar gategorïau biolegol, gall yr Eglwys dystio'n well nad yw Teyrnas Dduw o'r byd hwn; bod bywyd i'w fyw'n llawn nid drwy gydymffurfio'n allanol â strwythurau ffisegol y byd hwn, i'r cnawd a'r Gyfraith, ond yn yr Ysbryd, yng nghariad Duw a realiti mewnol y galon. Mewn priodas, fel yng Nghrist, nid oes na gwryw na benyw. Ond Crist yw popeth, ac mae ym mhopeth.

## Casgliad yr adroddiad:

### Rhai egwyddorion ar gyfer ymateb bugeiliol

137. A daeth y Gair yn gnawd a phreswylio yn ein plith, yn llawn gras a gwirionedd; gwelsom ei ogoniant ef, ei ogoniant fel unig Fab yn dod oddi wrth y Tad. Ioan 1.14 (NRSV)

Mae'r Efengyl yn tystio i Waredwr sy'n llwyr Dduw ac yn llwyr ddyn, sy'n dewis ffordd gostyngeiddrwydd ac aberth, ac sy'n galw pawb i batrwm o berthynas o roi bywyd fel yr amlygir gan Dduw ei hun. Felly, mae Cristnogaeth yn ffydd sy'n seiliedig ar ymgnawdoliad nad yw'n dechrau gyda dogma neu athrawiaeth ond gyda phobl a galwad. Mae'r egwyddorion ar gyfer ymateb bugeiliol fel y nodir isod yn berthnasol waeth pa un o'r tri opsiwn uchod a ffefrir.

---

[53] http://changingattitude.org.uk/?s=same+sex+marriage
[54] http://changingattitude.org.uk/?s=same+sex+marriage
[55] Charlotte Methuen, Changing Attitude 12 Ebrill, 2013, http://changingattitude.org.uk/archives/7105

138. Un o oblygiadau’r drafodaeth gyfredol yw na ddylai ystyriaeth o gwestiynau moesol a diwinyddol fyth anwybyddu realiti y rhai y mae’r cwestiynau hyn yn fwy na theori ond sy’n gysylltiedig mewn ffordd bersonol iawn â’u profiad a’u hunaniaeth eu hunain.

139. Wrth astudio cyfarfyddiad cychwynnol Iesu â dieithriaid yn yr Efengylau rydym yn gweld dro ar ôl tro ei fod yn ymateb yn drugarog ac yn uniongyrchol i angen pobl. Pan fydd yn gofyn cwestiynau, mae’r rhain yn gwestiynau sy’n gwahodd yn hytrach na phrofi: ‘Deuwch a gwelwch’, neu ‘Beth a geisiwch?’ Nid Crist ei hun sy’n cyflwyno’r her athrawiaethol neu foesol fel arfer ond y person sy’n siarad ag ef.

140. Pe bai Crist yn cael ei eni yng Nghymru yn 2014 ac yn cerdded ein strydoedd gan wybod am ofn y rhai na all fentro fynegi eu hangen, nid oes amheuaeth y byddai’n cyfarfod rhywun sy’n teimlo ei fod wedi’i allgáu neu hyd yn oed yn teimlo’n euog a bod y teimladau hyn yn gysylltiedig â’i brofiad o rywioldeb a oedd wedi ennyn beirniadaeth a ffieidd-dod yn ystod ei oes.

141. Nodwedd arall o ymwneud Iesu â phobl ei ddydd oedd y gydnabyddiaeth bod pobl yn ei chael hi’n anodd iawn i ffurfio ymateb priodol os nad ydynt yn gallu uniaethu’n llawn â phrofiad bywyd penodol. Gwelwn hyn yng nghondemniad cyffredinol y Phariseaid o’r rhai a oedd yn gaeth i dlodi ac yn methu ufuddhau i fanylion y rheoliadau a oedd mor bwysig iddynt. Gwelwn hyn hefyd yn ymdrechion llawn bwriadau da y disgyblion i gael gwared ar y rhai y byddai eu Meistr yn eu gweld yn niwsans yn eu tyb hwy, ac yn ymdrechion y disgyblion hynny i berswadio Iesu i roi’r gorau i gynlluniau a oedd yn annoeth yn eu barn hwy. Mae hyd yn oed yn amlwg yn ing yr Iesu ei hun bod ei ffrindiau agosaf yn methu ag amgyffred y llwybr roedd yn rhaid iddo ei droedio.

142. Mewn cyferbyniad uniongyrchol i ymddygiad o’r fath, mae agwedd y Crist atgyfodedig wrth iddo ddod i gyfarfyddiad â dau ddisgybl, a oedd wedi’u llorio gan siom a galar, ar eu ffordd i Emaus. Yma, er iddo herio eu dealltwriaeth o’r Ysgrythur, nid oedd ymgais o gwbl i wadu eu profiad hwy o fywyd, nac i alw arnynt i droi yn ôl. Cyd-gerdded â hwy a wnaeth, a arweiniodd yn y pen draw at weddnewidiad yng nghyd-destun rhannu lletygarwch a thorri’r bara.

143. Rydym yn cael ein harwain yn bwyllog at y casgliad bod profiad person arall o fywyd yn dir sanctaidd. Yn sgil esiampl Crist, rydym nawr yn cael ein galw i osod ein hagenda ein hunain o’r neilltu - boed yn uniongrededd athrawiaethol neu’n newid radical - a gwrando ar yr angen a deimlir na all y llall ei brosesu na’i archwilio heb y rhodd o’r lle anfeirniadol hwnnw lle mae modd cydnabod safbwyntiau a phrofiad personol yn agored.

144. Wrth greu’r lle i bobl sy’n cael eu denu at bobl o’r un rhyw fynegi eu realiti eu hunain a chyfrannu’n llawn at y drafodaeth gyfredol, mae angen i ni hefyd gydnabod safbwynt arall (a allai orgyffwrdd) hefyd. Mae gan y rhai sydd â chyfrifoldeb arweiniol bugeiliol yn yr Eglwys brofiad o’r angen uniongyrchol i

gynnig trugaredd a chydnabod realiti y cyfyng-gyngor sy'n codi ynghylch cyfeiriadedd rhywiol a phartneriaethau o'r un rhyw sy'n berthnasol iawn i'r rhai dan eu gofal. Wrth gwrs, mae'n rhaid i'r Eglwys ddiwallu anghenion bugeiliol y rhai a fyddai'n brawychu o glywed y byddai eu heglwys yn cefnogi partneriaethau o'r un rhyw o gwbl.

145. Mae'r sylwadau hyn yn cael eu hategu yng nghysyniad 'cyfaddasu bugeiliol' ('pastoral accomodation') sydd wedi'i ddisgrifio fel 'a response to some urgent presenting needs without ultimate dogmatic implications'.[56]

146. Mae'r cysyniad hwn yn anodd ei ddirnad os ydym yn ei ystyried fel her i'n safbwynt moesol sylfaenol. Wrth ystyried ymateb bugeiliol posibl, nid yw cyfaddasu bugeiliol yn ceisio dadlau o blaid neu yn erbyn dealltwriaeth uniongred o briodas, ond mae'n awgrymu y gall fod yn bosibl, i ryw raddau, cael amrywiaeth o ddaliadau er mwyn creu lle ar gyfer hunanddirnadaeth cwbl newydd.

147. Datblygodd y diwinydd Oliver O'Donovan y syniad hwn ymhellach yn ei gyflwyniad i Gomisiwn Philling ar rywioldeb dynol yn 2013, gan arsylwi ein bod nawr yn gweld ffurf cwbl newydd ar ymddygiad cyfunrhywiol ac y byddai'r Eglwys yn annoeth i weithredu'n rhy gyflym ar adeg o newid mor ddramatig.

148. Mae canlyniadau Arolwg y Lancet ar Agwedd ac Ymddygiad Rhywiol a gyhoeddwyd yn 2013 yn tanlinellu'r teimlad hwn bod yr hyn sy'n digwydd ar hyn o bryd yn newid cyfeiriad sylweddol ac yn fwy na cham nesaf ar y daith tuag at fwy o oddefgarwch i arferion rhywiol yn unig. Ym 1991 roedd llai na 50% o ddynion, a 53% o fenywod, yn credu bod godineb mewn priodas yn anghywir bob amser, ond mae'r astudiaeth gyfredol yn dangos bod y canrannau hyn wedi codi i 66% a 70% yn y drefn honno. Mae hefyd yn dangos bod 25% yn credu nad oedd unrhyw beth yn bod ar berthynas o'r un rhyw ym 1991 a bod y ffigur hwn wedi cynyddu i tua 57% heddiw.[57]

149. Mae cyfaddasu bugeiliol yn awgrymu ein bod yn cynnig lletygarwch diamod i'r rhai yr ydym yn anghytuno'n reddfol â'u harferion neu â'u safbwyntiau gwrthwynebus. Byddai'r rhai sy'n hyrwyddo'r dull hwn yn dadlau y byddai'n diffinio arena newydd lle mae'n bosibl gwrando'n fwy astud am lais yr Ysbryd Glân, 'not only in the thoughts, words and lives of those with whom one agrees but in the contributions of those one believes to be wrong'[58].

150. Nid yw'r adran hon yn cyflwyno dewis gwahanol pendant i'r opsiynau ar gyfer ymateb yr Eglwys i bartneriaethau o'r un rhyw, a phriodas o'r un rhyw gan y wladwriaeth, ond mae'n awgrymu datblygu cyfres o egwyddorion bugeiliol fel mesurau rhagarweiniol ar gyfer trafodaeth helaethach. Mae'r Eglwys a'r

[56] cf Church of England Faith and Order Commission Report 2013: '*Men and Women in Marriage'*
[57] Lancet 2013 *Changes in sexual Attitude and lifestyles in Britain through the life course and over time: findings from the National Surveys of Sexual Attitude and Lifestyles* (Natsal)
[58] Adroddiad Pilling paragraff 310

wladwriaeth yn bellach oddi wrth ei gilydd nag erioed ym Mhrydain ar athrawiaeth priodas, a her fugeiliol yw honno, os nad dim byd arall.

151. Yn gynyddol, mae eglwysi a Christnogion unigol yn cydnabod yr angen am ymateb bugeiliol tuag at amrywiaeth o bobl: y rhai y mae eu ffydd wedi eu harwain at ymataliad; y rhai sy'n credu bod perthynas o'r un rhyw yn gydnaws â'u ffydd a'r rhai sy'n teimlo wedi'u siomi, eu gormesu a'u gwrthod gan yr Eglwys.

152. Roedd datganiad bugeiliol i Anglicaniaid hoyw a lesbiaidd gan 188 o aelod-esgobion Cynhadledd Lambeth 1998 yn addo fel hyn: "to continue to reflect, pray and work for your full inclusion in the life of the Church." Mae gan addewid o'r fath oblygiadau pellgyrhaeddol i'r rhai sy'n rhan ac sydd ar ymylon cymuned yr eglwys, a dylai herio pawb sy'n gweinidogaethu yn yr Eglwys yng Nghymru.

153. Yn ei araith i'r Corff Llywodraethol yn 2012, soniodd Archesgob Cymru am bobl hoyw a lesbiaidd fel pobl y mae'r Eglwys yn siarad amdanynt ac nid gyda hwynt. Mae angen i ni fod yn ymwybodol o sut y gall ein cyfeiriadedd rhywiol personol a'n statws priodasol ni effeithio ar ein gallu i wrando'n astud neu i ddeall sefyllfa eraill.

154. Aeth yr Archesgob yn ei flaen i ddweud y gallai'r drafodaeth "roi'r argraff unwaith eto i bobl hoyw nad oes gan yr eglwys na gofal amdanynt na chydymdeimlad â hwy… fe all pethau gael eu dweud dros y misoedd sydd i ddod a all niweidio pobl yn fawr o safbwynt bugeiliol." Mae rhai o aelodau'r Comisiwn yn awgrymu y dylai'r Eglwys ystyried galwad am edifeirwch corfforaethol i gydnabod ei hymateb negyddol blaenorol i bobl gyfunrhywiol. Cafwyd ymatebion mwy cadarnhaol wrth reswm hefyd ar draws yr holl sbectrwm o safbwyntiau diwinyddol.

155. Mae realiti personol cyfeiriadedd cyfunrhywiol, ynghyd â rhagdybiaethau (cywir neu anghywir) am agwedd yr Eglwys, wedi arwain rhai i gredu na fydd croeso iddynt yn yr Eglwys yng Nghymru. Bydd eraill yn mynychu addoliad ar y Sul ond yn gochel rhag cymryd rhan ormodol ym mywyd y plwyf rhag ofn y byddai eu realiti personol yn arwain at wrthodiad yn y pen draw. Felly, yr egwyddor gyntaf yn yr ymateb bugeiliol yw sicrhau bod yr Eglwys yn cyfathrebu'n glir ei bod yn croesawu pobl sy'n cael eu denu at bobl o'r un rhyw â hwy.

156. Mae ail egwyddor sy'n gysylltiedig â derbyniad bugeiliol yn ymwneud â chydnabod, beth bynnag fo statws y ddadl ddiwinyddol, a waeth am ba hyd y bydd yr ymgynghoriadau a'r trafodaethau'n parhau, y bydd pobl â phryderon uniongyrchol a gwirioneddol na ellir eu hanwybyddu: "Rwy'n Gristion mewn partneriaeth sifil. Beth yw agwedd yr Eglwys tuag at y cam rwyf wedi dewis ei gymryd?" "Rwy'n cael fy nenu at bobl o'r un rhyw â fi ac wedi dewis bod yn ddiwair. Pa gymorth arbenigol bugeiliol sydd ar gael i mi?" "Rwy'n weinidog

ordeiniedig mewn partneriaeth sifil. A all fy mhartner fod yn bresennol yn fy ngwasanaeth sefydlu, neu ydw i'n esgus nad yw'n bodoli?" Mae'r rhai sy'n gyfrifol am ofal bugeiliol eisoes yn gorfod wynebu'r pryderon hyn a llawer mwy.

157. Ystyriaeth bellach yw a all gwahanol safbwyntiau ddod ynghyd, o gofio nad yw'r ffordd ymlaen o bosibl wedi'i chyflwyno eto – ffordd wahanol iawn i unrhyw ffordd arall y mae'r grŵp wedi'i dychmygu hyd yma. Gall hyn fod yn bosibilrwydd cyffrous, gyda'i ymarferoldeb yn dibynnu ar yr Eglwys yn cydnabod y pryderon taer a ddisgrifir uchod. Mae'n golygu cydnabod a pharchu profiadau byw pobl a safbwyntiau diwinyddol sy'n agos at galonnau pobl, ond a allai fod yn rhai gwrthwynebol.

158. Cwblhaodd O'Donovan ei gyflwyniad i Grŵp Pilling gyda her:

> "To find a way of acting, then, that is charitable, modest, provisional, ideologically light, keeping the Church's mind flexible and open, a way of acting that has more of the experiment than the conclusion about it, does not base itself on sweeping assertions of fact or principle that turn out to be false coinage which nobody can honour: that is the almost superhuman demand made of you and of those who will later build on your work."

A ellid cyflwyno'r her hon i Dŷ'r Esgobion a Chorff Llywodraethol yr Eglwys yng Nghymru yn eu trafodaethau dros y misoedd i ddod?